Trwyddedu Gweithredwyr Cerbydau Gwasanaeth Cyhoeddus
Arweiniad i Weithredwyr
(Diwygiwyd Ebrill 2009 PSV 437 – 01)

Mae’r arweiniad hwn a’r ffurflenni cais i drwyddedu gweithredwyr a chofrestru bysiau ar gael drwy www.businesslink.gov.uk, fel y mae’r cyhoeddiad *Notices and Proceedings*. Mae’r wefan yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol hefyd i weithredwyr trafnidiaeth, awdurdodau lleol, cyrff sydd mewn partneriaeth, cwmnïau llogi ac i’r cyhoedd. Mae’r arweiniad hwn yn ddilys o Ebrill 2009. Bydd newidiadau sylweddol yn Ebrill 2010 pan gyhoeddir arweiniad diwygiedig. Er mwyn cael y wybodaeth ddiweddaraf, ewch i www.businesslink.gov.uk

Ymwadiad
Mae’r cyhoeddiad hwn yn rhoi canllawiau cyffredinol yn unig ac ni ddylid ei ystyried yn ddatganiad cyflawn neu awdurdodol o’r gyfraith. Caiff yr arweiniad ei ddiweddaru i adlewyrchu unrhyw ddatblygiadau mewn deddfwriaeth newydd neu gyfraith achosion.

Os ydych yn dymuno gwirio’r sefyllfa gyfreithiol, dylech gyfeirio at y brif ddeddfwriaeth sydd wedi’i rhestru yn Atodiad 10 ac, os oes angen, gofyn am gyngor cyfreithiol eich hun.

Argraffwyd ar ddeunydd sy’n cynnwys 45% o ffeibrau coed crai, 30% o wastraff cyn defnyddio a 25% o wastraff ar ôl defnyddio. Caiff y mwydion eu cannu drwy’r broses Sylfaenol Ddi-glorin. Gellir cael gwared â’r deunydd hwn drwy ei ailgylchu.

Cynhyrchwyd gan COI ar ran y comisiynwyr traffig a VOSA. Ebrill 2009. Cyf 292010

Trwyddedu Gweithredwyr Cerbydau Gwasanaeth Cyhoeddus
Arweiniad i Weithredwyr

Rhagair gan Brif Weithredwr Dros Dro VOSA

Croeso i'r diwydiant cerbydau gwasanaeth cyhoeddus. Mae'r llyfryn newydd hwn *Trwyddedu Gweithredwyr Cerbydau Gwasanaeth Cyhoeddus* yn un o set o gyhoeddiadau gan VOSA sydd â'r bwriad o helpu'r gweithredwr a'r gyrrwr i sefydlu a rhedeg busnes sy'n ddiogel ac yn gyfreithlon.

Fel gweithiwr proffesiynol yn y diwydiant cerbydau gwasanaeth cyhoeddus, byddwch yn gweithio ochr yn ochr â VOSA fel rhan o'ch busnes bob dydd. Yn ogystal â'r prawf blynyddol a'i swyddogaeth gorfodi, mae VOSA wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaeth rhagorol i gwsmeriaid ac i ddarparu deunydd addysgol a chyngor i'r diwydiant. Mae'r arweiniad hwn yn rhan o'r ymrwymiad hwnnw.

Mae VOSA yn falch o gael y cyfle i gydweithio â'r comisiynwyr traffig a chymdeithasau masnach i ddarparu'r arweiniad hwn ar eich cyfer. Ein bwriad yw rhoi i weithredwyr newydd a'r rhai presennol y wybodaeth sy'n angenrheidiol i sicrhau eu bod yn deall ac yn cydymffurfio â'r gofynion ar gyfer rhedeg busnes diogel a chyfreithlon, sy'n aml yn rhai cymhleth. Drwy gydweithio gallwn sicrhau bod y diwydiant cludo teithwyr yn ffordd ddiogel a dibynadwy o deithio.

Alastair Peoples
Prif Weithredwr Dros Dro VOSA

RHAGAIR: gan Brif Weithredwr Dros Dro VOSA

RHAGAIR: gan yr Uwch Gomisiynydd Traffig

Rhagair gan yr Uwch Gomisiynydd Traffig

Rwy'n falch o lansio'r argraffiad diweddaraf hwn o'r *Arweiniad i Drwyddedu Gweithredwyr Cerbydau Gwasanaeth Cyhoeddus*.

Mae cludo teithwyr am dâl neu wobr yn rhan annatod o'r system drafnidiaeth ym Mhrydain ac mae'n bwysig sicrhau bod gweithredwyr yn deall y cyfrifoldebau y maent yn ymgymryd â hwy a'u bod yn glynu wrthynt.

Mae'r argraffiad hwn o'r arweiniad yn rhoi cyfle'n glir i weithredwyr i sicrhau bod eu systemau rheoli wedi'u cynllunio fel eu bod yn dangos cydymffurfiad â'r rhwymedigaethau sydd ar weithredwyr cerbydau gwasanaeth cyhoeddus. Weithiau bydd diffyg gofal yn arwain at gynnal ymchwiliad cyhoeddus ac ymateb sy'n llai na chydymdeimladol gan y comisiynydd traffig. Drwy roi enghreifftiau o systemau rheoli, mae'r arweiniad hwn yn tynnu sylw at y pwysigrwydd o redeg bysiau'n brydlon. Dylid cofio bod y Llywodraeth wedi datgan yn gyhoeddus mai prydlondeb bysiau "yw'r ffactor pwysicaf pan fydd pobl yn dewis teithio mewn bws yn hytrach nag mewn car".

Un ychwanegiad i'r argraffiad hwn o'r arweiniad yw atodiad sy'n ymdrin â limwsinau. Rwy'n falch o weld ei gynnwys, yn enwedig o gofio bod y pwnc hwn yn un y mae comisiynwyr traffig wedi mynegi ac yn dal i fynegi pryder yn ei gylch.

Fel rhai sy'n hyrwyddo'r diwydiannau bysiau a choetsys, rydym wedi ymrwymo i sicrhau cludiant i deithwyr sy'n ddiogel, yn deg ac yn ddibynadwy. Drwy ddefnyddio'r arweiniad hwn fel cymorth i reoli, mae cyfle gan yr holl weithredwyr a darpar weithredwyr i gydweithio â ni i gyflawni'r genhadaeth honno.

Philip Brown
Uwch Gomisiynydd Traffig

Cynnwys

Rhagymadrodd 4

Adran un – A oes arnaf angen trwydded? 5
1. Ar bwy y mae angen trwydded gweithredwr cerbydau gwasanaeth cyhoeddus 5
2. Diffiniadau 5
3. Mathau o drwydded 7

Adran dau – Y broses ymgeisio 10
4. Ymgeisio am drwydded 10
5. Gofynion i gael trwydded 11
6. Gwrthwynebiadau 12
7. Ymchwiliadau cyhoeddus 13
8. Gwrthod ceisiadau 14

Adran tri – Sut i gadw'ch trwydded 15
9. Os cymeradwyir eich cais 15
10. Mathau o wasanaeth y gallwch eu rhedeg â thrwydded cerbydau gwasanaeth cyhoeddus 16
11. Llogi gan weithredwyr eraill 18
12. Gwneud newidiadau yn eich trwydded 19
13. Beth fydd yn digwydd os gwnaf gamgymeriad? 21
14. O ble i gael mwy o wybodaeth 23

Atodiadau 24
1. Defnyddio limwsîn hir ar drwydded gweithredwr 24
2. Trwyddedau cyfyngedig arbennig i weithredwyr cerbydau gwasanaeth cyhoeddus 26
3. Cludiant di-elw 28
4. Rheolwyr trafnidiaeth 29
5. Euogfarnau perthnasol 30
6. Trefniadau cynnal a chadw 33
7. Gweithdrefnau a systemau monitro 35
8. Rhedeg gwasanaethau bws lleol 36
9. Archwilwyr VOSA (awdurdodi a phwerau) 37
10. Deddfwriaeth a gwybodaeth ddefnyddiol arall 38
11. Cysylltiadau defnyddiol 39
Mynegai 42

Cynnwys

# Rhagymadrodd

Mae'r Asiantaeth Gwasanaethau Cerbydau a Gweithredwyr (VOSA) wedi cynhyrchu'r arweiniad hwn i egluro sut mae'r system drwyddedu'n gweithio i weithredwyr cerbydau gwasanaeth cyhoeddus. Mae'r arweiniad wedi'i ysgrifennu gyda chymorth y comisiynwyr traffig a'r cymdeithasau masnach. Ei fwriad yw cynnig canllawiau cyffredinol i helpu'r gweithredwyr presennol a rhai newydd i ddeall gofynion y system trwyddedu gweithredwyr. Bydd hyn o gymorth i sicrhau bod yr holl gerbydau gwasanaeth cyhoeddus yn cael eu defnyddio'n ddiogel ac yn gyfreithlon. Nid yw VOSA na'r Adran Drafnidiaeth yn gallu rhoi cyngor cyfreithiol i weithredwyr. Os nad ydych yn sicr a ydych yn cydymffurfio â'r gyfraith, dylech ofyn am gyngor cyfreithiol annibynnol.

Mae'r arweiniad hwn yn egluro sut mae'r system trwyddedu gweithredwyr yn gweithio ar gyfer cerbydau gwasanaeth cyhoeddus. Rydym wedi'i gynhyrchu i roi canllawiau cyffredinol i chi; nid yw'n ddogfen gyfreithiol.

I gael manylion y gyfraith, cyfeiriwch at y Deddfau a'r rheoliadau sydd wedi'u rhestru yn Atodiad 10. (Mae rhestr o gyhoeddiadau eraill a allai fod yn ddefnyddiol i chi yn Atodiad 10 hefyd.)

Os ydych yn weithredwr newydd, bydd yr arweiniad hwn yn ddefnyddiol i chi i gael cyngor ar y gweithdrefnau trwyddedu gweithredwyr a'r gofynion ac ymrwymiadau cyfreithiol y bydd yn ofynnol i chi eu dilyn. Os ydych yn weithredwr profiadol a sefydledig, byddwch yn gallu cryfhau'ch dealltwriaeth o weithdrefnau trwyddedu gweithredwyr a chael y wybodaeth ddiweddaraf am y newidiadau diweddar mewn deddfwriaeth ac yn yr arferion gorau.

Mae disgrifiadau a diffiniadau manwl yn yr arweiniad hwn o'r holl systemau a gweithdrefnau y bydd angen i chi eu dilyn er mwyn dod yn weithredwr cerbydau gwasanaeth cyhoeddus diogel a chyfreithlon. Mae wedi'i gyflwyno yn ôl trefn y broses ymgeisio a chyfeirir at wybodaeth ychwanegol yn yr atodiadau yn y cefn.

Mae'r arweiniad hwn yn ymwneud yn bennaf â thrwyddedu gweithredwyr cerbydau gwasanaeth cyhoeddus. Mae VOSA wedi cynhyrchu cyfres o arweiniadau ategol eraill sydd ar gael am ddim a fydd yn sicrhau bod gennych y wybodaeth a'r hysbysrwydd angenrheidiol i redeg busnes diogel a chyfreithlon.

Disgwylir newidiadau yn y system trwyddedu gweithredwyr yn 2010 a bydd arweiniad diwygiedig yn dilyn.

Mae'r *Safe Operator's Guide* yn crynhoi'r cyngor ar yr arferion gorau ar gyfer gweithdrefnau diogelwch sy'n ymwneud â phob agwedd ar ddyletswyddau cyflogeion a gyrwyr.

Mae'r *Guide to Maintaining Roadworthiness* yn egluro'r cyfrifoldebau a'r systemau sy'n gysylltiedig â chadw cerbydau mewn cyflwr diogel ac addas i'r ffordd fawr.

Mae *Rules on Drivers' Hours and Tachographs – Passenger-carrying vehicles in the UK and Europe* yn egluro'r rheolau ar oriau gyrwyr a chadw cofnodion gan yrwyr a gweithredwyr.

Os oes arnoch angen mwy o gymorth i ymgeisio am drwydded neu ynghylch unrhyw agwedd arall ar y system trwyddedu gweithredwyr, mae ein staff ar gael i'ch helpu: ffoniwch 0300 123 9000.

Adran un – A oes arnaf angen trwydded?

1. Ar bwy y mae angen trwydded gweithredwr cerbydau gwasanaeth cyhoeddus

Bydd angen i chi gael trwydded gweithredwr cerbydau gwasanaeth cyhoeddus os yw'ch cerbyd wedi'i ddylunio neu ei addasu i gludo naw neu fwy o deithwyr ac os derbynnir tâl am gludo teithwyr (gelwir hyn yn 'dâl neu wobr'). Mae hyn yn cynnwys limwsinau hir; mae mwy o fanylion am hyn yn Atodiad 1.

Os ydych yn rhedeg cerbydau llai am dâl neu wobr, byddwch yn cael eich trwyddedu gan awdurdod lleol fel arfer o dan gyfundrefn tacsis neu logi preifat. Er hynny, mae amgylchiadau penodol lle mae'n rhaid trwyddedu'r cerbydau hyn fel cerbyd gwasanaeth cyhoeddus. (Mae'r rhain wedi'u disgrifio isod.)

Sylwch

Mae'n drosedd rhedeg cerbyd gwasanaeth cyhoeddus heb drwydded ddilys. Gallech fod yn agored i'ch erlyn a gallai'ch cerbyd gael ei bowndio.

2. Diffiniadau

Tâl neu wobr

Ceir tâl neu wobr pan fydd gweithredwr neu berchen-yrrwr yn cymryd taliad sy'n rhoi hawl i deithiwr gael ei gludo yn y cerbyd pa un a wneir elw neu beidio.

Gall y taliad gael ei wneud gan y teithiwr, neu ar ran y teithiwr. Gall fod (a) yn daliad uniongyrchol (e.e. pris tocyn) neu (b) yn daliad anuniongyrchol (gallai fod yn gyfnewid am wasanaethau fel tanysgrifiad aelodaeth i glwb, yn daliad am wely mewn gwesty, yn ffioedd ysgol neu'n daliad am docynnau cyngerdd lle mae teithio wedi'i gynnwys; nid oes rhaid i'r taliad fod yn arian ac nid oes angen arfer yr hawl i deithio).

Sylwch

Gallai'r llysoedd ystyried bod taliadau anuniongyrchol yn dâl neu wobr.

Diffinio beth yw cerbyd gwasanaeth cyhoeddus

Bysiau mini a cherbydau mwy

Os yw'r cerbyd wedi'i ddylunio neu ei addasu i gludo naw neu fwy o deithwyr ac os yw'n gwneud hynny am dâl neu wobr mae'n gerbyd gwasanaeth cyhoeddus. Mae hyn yn cynnwys llawer o limwsinau hir; mae mwy o fanylion yn Atodiad 1.

Cerbydau llai

Os oes wyth o seddau teithwyr neu lai yn eich cerbyd ond eich bod yn dymuno cludo teithwyr am brisiau tocynnau ar wahân wrth redeg busnes bydd arnoch angen trwydded gweithredwr cerbydau gwasanaeth cyhoeddus. Fodd bynnag:

• Os oes gennych drwydded tacsi neu, o wanwyn 2009, drwydded llogi preifat a chithau am ddefnyddio'ch tacsi neu gar llogi trwyddedig i redeg gwasanaeth bws lleol, gallwch ymgeisio am drwydded gweithredwr cerbydau gwasanaeth cyhoeddus gyfyngedig arbennig sy'n haws ei chael. Mae mwy o fanylion yn Atodiad 2.
• Os ydych am redeg un neu ddau o gerbydau'n unig nad yw'r naill na'r llall ohonynt yn cynnwys mwy nag wyth o seddau teithwyr (heb gynnwys un y gyrrwr), gallwch ymgeisio am drwydded gweithredwr cerbydau gwasanaeth cyhoeddus gyfyngedig sy'n haws ei chael na thrwydded safonol. Gwelwch dudalen 8.

Ni chaiff eich cerbyd ei ystyried yn gerbyd gwasanaeth cyhoeddus yn y sefyllfaoedd canlynol ac ni fydd arnoch angen trwydded gweithredwr cerbydau gwasanaeth cyhoeddus:
• os byddwch yn rhoi lifftiau mewn car, neu'n cymryd rhan mewn cynllun ceir cymdeithasol sy'n cael ei redeg gan awdurdod lleol a chithau'n codi tâl ar bobl sy'n ddigon i dalu'ch costau rhedeg (ynghyd â thraul gyffredinol a dim mwy). Bydd eich car yn dal i gael ei drin fel cerbyd preifat, nid fel tacsi, car llogi neu gerbyd gwasanaeth cyhoeddus;
ADRAN UN – A oes arnaf angen trwydded?

• os ydych yn rhedeg busnes tacsis neu gerbydau llogi preifat ac yn codi tâl am logi'r cerbyd cyfan. Ni fyddwch yn codi prisiau tocynnau ar wahân felly ni chaiff eich cerbyd ei ystyried yn gerbyd gwasanaeth cyhoeddus. Bydd angen ichi gael trwydded tacsi neu gerbyd llogi preifat gan yr awdurdod lleol os yw system drwyddedu mewn grym yn eich ardal weithredu;
• os defnyddir eich tacsi neu gerbyd llogi preifat trwyddedig i gludo teithwyr am brisiau tocynnau ar wahân ar yr amod bod yr holl deithwyr yn archebu ymlaen llaw ac yn cytuno ar adeg archebu i rannu'r gost; neu
• os yw'ch tacsis trwyddedig yn gweithredu o fannau awdurdodedig o dan gynlluniau rhannu tacsis awdurdod lleol.

O 6 Ebrill 2009 ymlaen caiff cyrff di-elw ddefnyddio cerbydau bach i gludo teithwyr am brisiau tocynnau ar wahân heb yr angen i ddal trwydded gweithredwr cerbydau gwasanaeth cyhoeddus. Ceir gweithredu'r cerbyd o dan ganiatâd safonol (gwelwch Atodiad 3).

Os ydych yn rhedeg cerbyd gwasanaeth cyhoeddus am brisiau tocynnau ar wahân, efallai y bydd angen ichi gofrestru'ch gwasanaeth gyda'r comisiynydd traffig fel gwasanaeth bws lleol. Mae mwy o wybodaeth ar gael yn www.businesslink.gov.uk, drwy gysylltu â VOSA (gwelwch Atodiad 11) neu yn y *Canllaw i Gofrestru Gwasanaethau Bws Lleol*. Mae crynodeb o'r gofynion ar gyfer rhedeg gwasanaeth lleol yn Atodiad 8.

Sylwch
Mae achlysuron pan na fydd angen trwydded gweithredwr i ddefnyddio cerbyd gwasanaeth cyhoeddus. Mae'r rhain yn ymwneud yn bennaf â bysiau ysgol sy'n eiddo i awdurdodau addysg lleol ac yn cael eu rhedeg ganddynt a cherbydau sy'n cael eu rhedeg gan gyrff di-elw o dan ganiatâd (gwelwch Atodiad 3).

A yw cerbyd yn dal yn gerbyd gwasanaeth cyhoeddus hyd yn oed pan nad yw'n cludo teithwyr?
Os yw'r cerbyd wedi'i barcio mewn depo neu garej (neu'n cael ei yrru rhwng dau ddepo neu wedi'i roi o'r neilltu am unrhyw reswm) mae'n dal yn gerbyd gwasanaeth cyhoeddus. Ni fydd yn peidio â bod yn gerbyd gwasanaeth cyhoeddus nes rhoi'r gorau i'w ddefnyddio fel un yn barhaol; er enghraifft, os cymerwch gerbyd allan o wasanaeth yn gyfan gwbl a'i addasu ar gyfer rhyw ddefnydd arall (fel hyfforddi gyrwyr).

Mae eithriad ar gyfer cerbydau sy'n cael eu defnyddio weithiau fel tacsis neu gerbydau llogi preifat (ceir llogi preifat yn yr Alban) ac weithiau fel cerbydau gwasanaeth cyhoeddus o dan drwydded gweithredwr cerbydau gwasanaeth cyhoeddus gyfyngedig arbennig (gwelwch Atodiad 2). Dim ond pan ddefnyddir y cerbydau hyn ar wasanaethau bws lleol cofrestredig y byddant yn gerbydau gwasanaeth cyhoeddus. Pan na fyddant yn cael eu defnyddio fel cerbydau gwasanaeth cyhoeddus, byddant yn dacsis neu'n gerbydau llogi preifat a'r rheolau ar gyfer trwyddedu tacsis a cherbydau llogi preifat fydd yn gymwys.

Sylwch

Bydd y newidiadau yn y ddeddfwriaeth i ganiatáu defnyddio cerbydau llogi preifat a cheir llogi preifat o dan drwydded gweithredwr cerbydau gwasanaeth cyhoeddus gyfyngedig arbennig yn dod i rym yng ngwanwyn 2009.

Prisiau tocynnau ar wahân: diffiniad
. Prisiau tocynnau ar wahân .
Ystyr prisiau tocynnau ar wahân yw taliad unigol a roddir gan bob teithiwr i'r gyrrwr, i'r tocynnwr neu i asiant y gweithredwr am y daith a wneir.
Gellir gwneud y taliad yn y cerbyd neu cyn y daith mewn man gwerthu (peiriant tocynnau, siop papurau newydd, swyddfa neu orsaf gerbydau).
Gellir gwneud y taliad yn anuniongyrchol hefyd (mewn cysylltiad â gwasanaethau eraill fel tocynnau i gyngerdd lle mae teithio wedi'i gynnwys).

Prisiau tocynnau ar wahân
**Nid yw** prisiau tocynnau ar wahân yn gysylltiedig os caiff y cerbyd ei logi'n gyfan ac os na roddir cyfraniad gan deithwyr unigol, er enghraifft, am gludo plant yn ôl ac ymlaen i'r ysgol.

Gwahaniaethau rhanbarthol
Yr Alban
Yn yr Alban rhaid trwyddedu pob cerbyd bach sy'n cludo teithwyr (ac ynddo wyth neu lai o seddau teithwyr) yn gar llogi preifat os yw i gael ei ddefnyddio i'w logi drwy drefniant preifat. Enghreifftiau posibl o ddefnydd o'r fath yw llogi preifat, contractau ysgol neu deithiau i weld bywyd gwyllt. Rhaid ystyried pob math gwahanol o ddefnydd yn ôl ei rinweddau.

Nid oes angen trwydded car llogi preifat ar gyfer cerbydau bach o'r math hwn os na fyddant ond yn cael eu defnyddio i gludo teithwyr am brisiau tocynnau ar wahân ar wasanaeth lleol cofrestredig. Yn yr amgylchiadau hyn bydd angen iddynt ddod dan drwydded gweithredwr cerbydau gwasanaeth cyhoeddus.

Fodd bynnag, os defnyddir y cerbyd ar gyfer llogi preifat a hefyd ar gyfer gwasanaethau cofrestredig, bydd angen y ddau fath o drwydded ar ei gyfer (car llogi preifat a cherbyd gwasanaeth cyhoeddus).

Os oes arnoch angen gwybodaeth bellach a manylach am weithredu cerbydau bach sy'n cludo teithwyr (ac ynddynt wyth o seddau teithwyr neu lai) yn yr Alban, gofynnwch i Swyddfa'r Comisiynydd Traffig yn yr Alban am gopi o'r hysbysiad ar wahân *Licensing of small passenger carrying vehicles* (11 Gorffennaf 2001) neu gallwch ei gael o www.businesslink.gov.uk

Cymru a Lloegr
Yng Nghymru a Lloegr mae eithriad i'r gofyniad i godi prisiau tocynnau ar wahân ond dim ond ar gyfer gweithredwyr mawr sy'n rhedeg cerbydau gwasanaeth cyhoeddus ac ynddynt fwy nag wyth o seddau teithwyr, ac y mae eu defnydd o gerbydau bach yn rhan fach o'u busnes yn unig. Caiff y gweithredwyr hyn redeg cerbydau bach sydd wedi'u cofrestru'n gerbydau gwasanaeth cyhoeddus ar gyfer llogi preifat.

Nid yw'r ddeddfwriaeth yn diffinio beth yw 'rhan fach'. Yn y pen draw, mae

penderfyniadau terfynol ynghylch y cydbwysedd hwnnw'n fater i'r llysoedd. Mae'r ddeddfwriaeth yn rhoi'r esemptiad i weithredwr y mae ei ddefnydd o gerbydau bach yn rhan fach yn unig o'i **fusnes**. Un ffactor sy'n berthnasol yw maint cymharol y fflyd o fysiau bach a mawr. Os yw llai na 10% o'r fflyd gyfan sydd wedi'i thrwyddedu o dan drwydded gweithredwr cerbydau gwasanaeth cyhoeddus yn gerbydau bach, gallai'r esemptiad fod yn gymwys. Fodd bynnag, gan fod y ddeddfwriaeth yn cyfeirio at faint y busnes bach a mawr, gallai ffactorau eraill fel refeniw neu nifer milltiroedd fod yn berthnasol. Er enghraifft, efallai y bydd achosion lle mae'r fflyd o gerbydau bach yn fwy na 10% ond lle nad yw nifer milltiroedd y cerbydau hyn ond yn gyfran fach o'r holl filltiroedd ac, os felly, gallai'r esemptiad fod yn gymwys.

3. Mathau o drwydded

Mae pedwar math o drwydded:

1. Trwydded safonol – ar gyfer gweithrediadau cenedlaethol a rhyngwladol.
2. Trwydded safonol – ar gyfer gweithrediadau cenedlaethol yn unig.
3. Trwydded gyfyngedig – ar gyfer gweithrediadau bach yn unig.
4. Trwydded gyfyngedig arbennig – ar gyfer deiliaid trwyddedau tacsi (ac o wanwyn 2009 ymlaen, deiliaid trwyddedau cerbydau llogi preifat) yn unig (gwelwch Atodiad 2).

Y drwydded safonol

Mae trwydded safonol yn caniatáu ichi weithredu unrhyw nifer o gerbydau o fewn y nifer a awdurdodwyd i chi yn y DU (neu yn y DU ac mewn gwledydd tramor os rhoddwyd eich trwydded ar gyfer gweithrediadau rhyngwladol). Er mwyn cael trwydded safonol, rhaid i chi neu'ch rheolwr trafnidiaeth fodloni'r gofyniad am gymhwysedd proffesiynol.

(Eglurir ystyr cymhwysedd proffesiynol yn Atodiad 4.)

Os gallwch chi neu'ch rheolwr trafnidiaeth honni bod gennych gymhwysedd proffesiynol ar gyfer gweithrediadau cenedlaethol yn unig, dim ond trwydded genedlaethol safonol y byddwch yn gallu ei chael.

ADRAN UN – A oes arnaf angen trwydded?

ADRAN UN – A oes arnaf angen trwydded?

Sylwch

Rhaid i'ch rheolwr trafnidiaeth fod yn un sy'n cymryd rhan yn eich busnes ac sydd â chyfrifoldeb parhaol ac effeithiol dros y gweithrediadau trafnidiaeth. Rhaid i'ch rheolwr trafnidiaeth fod ag enw da iddo. Os byddwch yn newid eich rheolwr trafnidiaeth, rhaid ichi hysbysu'r comisiynydd traffig drwy gysylltu â VOSA (gwelwch Atodiad 4).

Os ydych yn rheolwr trafnidiaeth a chithau'n peidio â bod â chyfrifoldeb dros fusnes deiliad trwydded, fe'ch cynghorir i hysbysu'r comisiynydd traffig drwy gysylltu â VOSA.

Cofiwch, fel deiliad y drwydded, chi sy'n gyfrifol yn y pen draw am bob agwedd ar eich gweithrediadau.

Sylwch

Mae gofynion eraill hefyd y mae'n rhaid i chi eu bodloni cyn rhoi trwydded i chi. Eglurir y rhain isod.

Trwyddedau cyfyngedig

Mae trwyddedau cyfyngedig yn caniatáu defnyddio un neu ddau o gerbydau'n unig gan weithredwyr. Heblaw yn yr amgylchiadau sydd wedi'u nodi isod, ni chaiff y naill na'r llall o'r cerbydau hyn fod wedi'i adeiladu i gludo mwy nag wyth o deithwyr, er y ceir defnyddio cerbydau sy'n cludo hyd at 16 o deithwyr (a) os na ddefnyddir y cerbydau fel rhan o fusnes cludo teithwyr (e.e. eu defnyddio mewn cysylltiad â busnes gwesty) neu (b) os nad eich prif waith yw rhedeg cerbydau gwasanaeth cyhoeddus sy'n gallu cludo naw neu fwy o deithwyr (h.y. mae rhedeg bws mini yn ail fusnes ac nid yw'n brif alwedigaeth i chi).

Sylwch

Mae'r cyfyngiadau ar y brif alwedigaeth yn gymwys i gerbydau ac ynddynt rhwng naw ac 16 o seddau teithwyr. Nid ydynt yn gymwys yn achos cerbydau ac ynddynt wyth neu lai o seddau teithwyr.

Nid oes rhaid ichi fodloni'r gofyniad am gymhwysedd proffesiynol i gael trwydded gyfyngedig, ond mae'r holl ofynion eraill yr un fath â'r rhai ar gyfer trwydded safonol. Rhaid ichi ymgeisio yn yr un ffordd, ac ufuddhau i'r un rheolau.

Os yw'r drwydded gyfyngedig yn enw cwmni cyfyngedig a chithau am redeg cerbydau ac ynddynt rhwng naw ac 16 o seddau teithwyr, mae'r rheol ynghylch y brif alwedigaeth yn gymwys i'r endid cyfreithiol, hynny yw, y cwmni cyfyngedig.

Sylwch

Ni ellir defnyddio trwydded gyfyngedig ar gerbyd sydd â mwy nag 16 o seddau teithwyr. Os ydych yn dymuno rhedeg cerbyd sydd â mwy nag 16 o seddau teithwyr, bydd arnoch angen trwydded safonol.

Y nifer mwyaf o gerbydau y ceir eu defnyddio o dan drwydded gyfyngedig yw dau. Os ydych yn dymuno defnyddio mwy na dau gerbyd, bydd arnoch angen trwydded safonol.

Trwyddedau cyfyngedig arbennig

Dim ond i rywun sydd eisoes yn dal trwydded tacsi (neu o wanwyn 2009 ymlaen, un sy'n dal trwydded cerbyd llogi preifat neu drwydded car llogi preifat yn yr Alban) y gellir rhoi trwydded gyfyngedig arbennig. Yr unig ddefnydd iddi yw gadael i dacsi neu gerbyd llogi preifat redeg ar wasanaeth lleol. Mae'r ffordd o ymgeisio a'r holl reolau eraill yn wahanol i bob math arall o drwydded; maent wedi'u nodi yn Atodiad 2.

Os ydych yn ystyried cael trwydded gyfyngedig arbennig yn unig, trowch yn syth i Atodiad 2 ac anwybyddu gweddill y rhan hon o'r arweiniad.

Deunydd darllen pellach

Dylech hefyd ddarllen *Canllaw i Gofrestru Gwasanaethau Bws Lleol* (PSV 353A). Os ydych yn bwriadu rhedeg gwasanaeth lleol yn Llundain, rhaid ichi gael awdurdodiad yn gyntaf gan Transport for London (TfL).

Canolfannau gweithredu lluosog
Mae wyth ardal draffig ym Mhrydain Fawr. Rhaid ichi gael trwydded ar gyfer pob ardal draffig y mae gennych ganolfan weithredu ynddi; fodd bynnag, efallai y bydd gennych fwy nag un ganolfan weithredu ym mhob ardal draffig. Canolfan weithredu yw'r lle y cedwir eich cerbydau fel arfer.

Bydd y drwydded yn dweud wrthych y nifer o gerbydau yr ydych wedi'ch awdurdodi i'w gweithredu ar adeg benodol. Gallwch ddefnyddio'ch cerbydau yn rhywle yn y DU, ar yr amod eu bod yn cael eu cadw fel arfer yn yr ardal draffig a roddodd y drwydded i chi.

Gall unrhyw endid unigol (unig fasnachwr, partneriaeth neu gwmni cyfyngedig) ddal un drwydded yn unig ym mhob ardal draffig. Gellir enwi person ar fwy nag un drwydded ym mhob ardal ar yr amod bod y trwyddedau ar gyfer endidau gwahanol, e.e. un drwydded wedi'i dal gan rywun fel unig fasnachwr ac un fel rhan o bartneriaeth.

Nid yw hyn yn gymwys i ddeiliaid trwyddedau cyfyngedig arbennig sydd ag esemptiadau penodol. I gael mwy o fanylion, cysylltwch â VOSA.

Gofynion ychwanegol
Rhaid i yrwyr cerbyd gwasanaeth cyhoeddus sydd â naw neu fwy o seddau teithwyr ddal trwydded yrru alwedigaethol ddilys. Dangosir hyn ar drwydded yrru unedig sy'n dangos yr holl hawliau gyrru, rhai cyffredin a galwedigaethol.

O 10 Medi 2008 bydd angen i yrwyr ddal Tystysgrif Cymhwysedd Proffesiynol y Gyrrwr (DCPC).
• O'r dyddiad hwn bydd angen i bob gyrrwr newydd lwyddo ym mhrawf cychwynnol theori ac ymarfer DCPC, yn ogystal â chael y drwydded.
• Bydd y gyrwyr presennol wedi cael hawliau os ydynt yn dal trwydded alwedigaethol a roddwyd cyn 10 Medi 2008. Bydd gyrwyr a gafodd hawliau yn eu cadw hyd at ac yn cynnwys 9 Medi 2013.
• Bydd yn ofynnol dilyn hyfforddiant cyfnodol rheolaidd erbyn y dyddiad hwn er mwyn cadw'r cymhwyster. Mae hyfforddiant cyfnodol yn ddatblygu proffesiynol parhaus ar gyfer gyrwyr bysiau a choetsys.
• Er mwyn cadw DCPC rhaid i'r gyrrwr gwblhau o leiaf 35 o oriau o hyfforddiant cyfnodol cymeradwyedig yn ystod pob cylch pum mlynedd.

Os yw cerbyd yn gallu cludo naw neu fwy o deithwyr, rhaid cael Tystysgrif Addasrwydd Gychwynnol (COIF), neu Dystysgrif Gydymffurfio, ar ei gyfer i ddangos ei fod wedi'i adeiladu neu ei addasu yn ôl safonau cerbyd gwasanaeth cyhoeddus. Os prynwch gerbyd gwasanaeth cyhoeddus ail-law, gofalwch fod tystysgrif ar ei gyfer a'i bod yn cael ei throsglwyddo i chi.

Sylwch
Mae prawf MOT Dosbarth VI arbennig ar gyfer cerbydau gwasanaeth cyhoeddus sydd wedi'u hadeiladu neu eu haddasu i gludo naw neu fwy o deithwyr, a rhaid ei gael bob blwyddyn gan ddechrau 12 mis ar ôl eu gwneud neu eu defnyddio gyntaf.

Deunydd darllen pellach

Rhaid ichi wybod am y rheolau ar oriau gyrwyr a thacograffau – gwelwch y llyfryn *Drivers' Hours Rules for Road Passenger Vehicles* (PSV 375).

Rhaid ichi gynnal a chadw eich cerbydau i sicrhau eu bod mewn cyflwr addas i'r ffordd fawr bob amser. I gael mwy o wybodaeth, cyfeiriwch at y *Guide to Maintaining Roadworthiness*.

Rhaid ichi sicrhau bod gennych systemau ar waith i reoli a chadw cofnodion i sicrhau bod yr holl gerbydau sy'n cludo teithwyr yn cael eu defnyddio'n ddiogel ac yn gyfreithlon. I gael mwy o wybodaeth, cyfeiriwch at *The Safe Operator's Guide*.

Mae'r holl arweiniadau yr ydym yn eu henwi ar gael yn www.businesslink.gov.uk a gellir eu cael yn rhad ac am ddim gan VOSA (gwelwch Atodiad 11).

ADRAN UN – A oes arnaf angen trwydded?

Adran dau – Y broses ymgeisio

4. Ymgeisio am drwydded

Gallwch gael ffurflen gais (PSV 421) drwy ei lawrlwytho o www.businesslink.gov.uk neu drwy gysylltu â VOSA (gwelwch Atodiad 11).

Dylech anfon y ffurflen o leiaf naw wythnos cyn y diwrnod pan ydych am i'r drwydded ddechrau. Fodd bynnag, ni fydd y comisiynydd traffig yn rhoi trwydded i chi nes ei fod wedi'i fodloni eich bod wedi rhoi tystiolaeth ddigonol i ddangos y byddwch yn bodloni'r gofynion sydd wedi'u nodi isod.

Gallai hyn gymryd mwy na naw wythnos.
Felly fe'ch cynghorir i beidio â phrynu neu logi cerbydau neu unrhyw gyfarpar arbennig, na'u cymryd ar brydles, ac i beidio â gwneud unrhyw gontract i redeg gwasanaethau, nes eich bod yn gwybod bod trwydded wedi'i rhoi i chi.

Sylwch
Nid yw ymgeisio am drwydded yn rhoi hawl ichi weithredu, neu ddal i weithredu, cerbydau gwasanaeth cyhoeddus.

Nifer y cerbydau y gallwch eu gweithredu
Gall trwydded safonol roi awdurdod i redeg unrhyw nifer o gerbydau. Dylech wneud cais i redeg cynifer o gerbydau ag y credwch y bydd arnoch eu hangen ar unrhyw adeg benodol. Rhaid ichi fodloni'r comisiynydd traffig eich bod yn gallu rhedeg y nifer hwnnw o gerbydau'n ddiogel, a'u cynnal a'u cadw'n briodol.

Caiff y comisiynydd traffig roi trwydded i chi redeg nifer llai o gerbydau nag y gofynasoch amdano. Felly er y gallech fod yn berchen ar fwy o gerbydau na'r nifer mwyaf sydd wedi'i awdurdodi ar y drwydded, ni chewch redeg mwy na'r nifer hwnnw ar unrhyw adeg benodol a rhaid arddangos disg ar bob cerbyd pryd bynnag y caiff ei ddefnyddio. Gallwch ymgeisio ar unrhyw adeg i amrywio'ch trwydded fel y gallwch weithredu mwy o gerbydau.

Gall trwydded gyfyngedig roi awdurdod i weithredu un neu ddau o gerbydau'n unig sydd â seddau i 16 o deithwyr ar y mwyaf.

Sylwch
Dylai gweithredwyr gofio mai dim ond cerbydau a disg trwydded gweithredwr cerbydau gwasanaeth cyhoeddus wedi'i arddangos arnynt y gellir eu defnyddio fel cerbyd gwasanaeth cyhoeddus. Os yw gweithredwr yn meddu ar fwy o gerbydau na'r nifer sydd wedi'i awdurdodi, dylid rhoi ystyriaeth ofalus i gynyddu'r nifer mwyaf o gerbydau a awdurdodir iddo (drwy ymgeisio i amrywio'r drwydded) a nifer y disgiau. Drwy wneud hyn, gellir defnyddio'r cerbydau'n fwy hyblyg ac osgoi problemau oherwydd analluu i redeg gwasanaethau am fod disgiau wedi'u defnyddio ar gerbydau eraill.

Anfon ffioedd
Bydd angen ichi anfon ffi ymgeisio gyda'ch ffurflen. Ni ellir ad-dalu'r ffi hon, hyd yn oed os na roddir trwydded i chi, gan ei bod yn clirio'r gost o brosesu'ch cais.

Os bydd y comisiynydd traffig yn rhoi trwydded i chi, bydd anfoneb yn cael ei hanfon atoch i'ch hysbysu am ffioedd pellach sy'n daladwy cyn y cewch ddechrau gweithredu. Rhoddir eich trwydded newydd a'ch disgiau cerbydau i chi ar ôl talu'r holl ffioedd.

Sylwch
Mae yn erbyn y gyfraith dechrau gweithredu cyn ichi gael eich trwydded a'ch disgiau. Nid oes darpariaeth ar gyfer rhoi trwydded gweithredwr cerbydau gwasanaeth cyhoeddus dros dro.

## 5. Gofynion i gael trwydded

Er mwyn cael trwydded safonol neu gyfyngedig rhaid ichi fodloni'r comisiynydd traffig eich bod yn un:

- sydd ag iddo enw da;
- sydd â statws ariannol priodol (h.y. bod gennych ddigon o arian i redeg y busnes);
- sydd â chyfleusterau (neu drefniadau) digon da i gynnal a chadw eich cerbydau;
- sy'n gallu sicrhau eich bod chi a'ch staff yn ufuddhau i'r holl reolau.

Rydym wedi ymhelaethu ar ystyr hyn isod.

### Enw da

Bydd y comisiynydd traffig yn ystyried unrhyw euogfarnau perthnasol yr ydych chi neu unrhyw gyflogeion i chi wedi'u cael yn y pum mlynedd diwethaf (eglurir ystyr euogfarnau perthnasol yn Atodiad 5). Caiff y comisiynydd traffig gymryd i ystyriaeth hefyd unrhyw faterion eraill sy'n effeithio ar eich enw da, gan gynnwys y rheini a godir gan unrhyw wrthwynebwyr i'ch cais.

Bydd peidio â datgelu euogfarnau ar eich ffurflen gais neu euogfarnau a geir yn ystod cyfnod eich trwydded yn fygythiad mawr i barhad trwydded a roddwyd eisoes wedi i'r mater ddod i sylw'r comisiynydd traffig.

Rhaid i unrhyw gyflogai sy'n dal y cymhwyster cymhwysedd proffesiynol (CPC) hefyd fodloni'r gofyniad ynghylch enw da. Nid yw'n ofynnol ichi enwebu deiliad CPC ar drwydded gyfyngedig. (Mae manylion am y gofyniad ynghylch cymhwysedd proffesiynol yn Atodiad 4.)

### Statws ariannol priodol

Bydd angen i'r comisiynydd traffig gael sicrwydd bod gennych ddigon o arian i redeg eich busnes yn briodol. Gellir dangos y sefyllfa ariannol drwy roi mantolen banc neu gymdeithas adeiladu (bydd yn ofynnol rhoi cyfriflenni gwreiddiol ar gyfer y tri mis sy'n union cyn dyddiad eich cais), gan gynnwys tystiolaeth o gyfleuster gorddrafft. Mae mwy o arweiniad ar gael yn y pecyn ymgeisio am faint y cyllid sy'n ofynnol a sut y gellir dangos statws ariannol neu gellir ei gael fel arall yn www. businesslink.gov.uk neu drwy gysylltu â VOSA
(gwelwch Atodiad 11).

### Sylwch

Os ydych yn ymgeisio am drwydded ryngwladol safonol, mae maint y cyfalaf a'r arian wrth gefn y mae'n ofynnol iddo fod ar gael wedi'i nodi yn y rheoliadau. Gan y gallai'r rhain gael eu newid dylech gysylltu â VOSA i gael gwybod y gofynion cyfredol.

### Cyfleusterau (neu drefniadau) i gynnal a chadw eich cerbydau

Rhaid ichi fodloni'r comisiynydd traffig y bydd eich cerbydau'n cael eu cadw fel eu bod yn addas ac yn weithredol bob amser. Bydd y comisiynydd traffig am weld copi o unrhyw gontract cynnal a chadw neu lythyr cytundeb â darparwr gwasanaeth cynnal a chadw os nad ydych yn gwneud y gwaith hwn eich hun. Bydd y comisiynydd traffig yn mynnu gweld enghreifftiau o'r ffurflenni a ddefnyddir ar gyfer archwiliadau diogelwch cerbydau. Mae'r *Guide to Maintaining Roadworthiness* yn rhoi gwybodaeth fanwl am y gofynion am drefniadau cynnal a chadw.

Gallu i ufuddhau i'r holl reolau

Bydd angen i'r comisiynydd traffig gael ei fodloni bod gennych systemau digonol ar waith i sicrhau eich bod chi a'ch staff yn gallu ufuddhau i'r rheolau sy'n delio â'r canlynol:

- terfynau cyflymder;
- rhwymedigaethau gyrwyr;
- trwyddedu gyrwyr;

ADRAN DAU – Y broses ymgeisio

• rheolau ar oriau gyrwyr a'r Gyfarwyddeb Oriau Gwaith;
• trethu ac yswirio cerbydau;
• dibynadwyedd gwasanaethau bws lleol.

Ystyr systemau digonol i ufuddhau i'r holl reolau yw strwythurau rheoli, monitro a chofnodi er mwyn gallu dangos i'r comisiynydd traffig y graddau y cafwyd ac y ceir cydymffurfiaeth.

Felly, er enghraifft, os ydych yn dymuno rhedeg gwasanaethau cofrestredig dylech sicrhau bod y systemau canlynol gennych i reoli prydlondeb bysiau. Rhai o'r pethau y dylid eu hystyried wrth ddatblygu'ch systemau yw:

• pa mor aml y caiff y gwasanaethau cofrestredig eu monitro;
• canran y gwasanaethau cofrestredig a gaiff eu monitro;
• sut mae cofnodion monitro yn cael eu gwneud a'u cadw;
• sut y rhoddir gwybod am fonitro drwy reolwyr llinell yn y corff;
• sut y trafodir cydymffurfio ag amserlenni ar y lefel rheoli uchaf ac, yn achos cwmnïau cyfyngedig, ar lefel y bwrdd;
• camau a gymerir i gywiro methiant i gydymffurfio ag amserlenni cofrestredig.

Pe byddech yn methu â rhedeg eich gwasanaethau'n gywir, gallai'r comisiynydd traffig fynnu eich bod yn dangos tystiolaeth bod gennych systemau o'r fath ar waith.

Mae mwy o wybodaeth am y gofynion i gael systemau digonol yn Atodiad 7.

6. Gwrthwynebiadau

Bydd y comisiynydd traffig yn cyhoeddi hysbysiad o'ch cais yn y cyhoeddiad pythefnosol *Notices and Proceedings*. Mae hawl statudol gan yr heddlu ac awdurdodau lleol i wrthwynebu'ch cais os gallant brofi nad ydych yn bodloni'r gofynion sydd wedi'u nodi yn Adran 5 ar dudalen 11 (h.y. nad ydych yn bodloni'r gofynion i fod ag enw da i chi, statws ariannol priodol, cymhwysedd proffesiynol, trefniadau neu gyfleusterau digonol i gynnal a chadw eich cerbydau a'r gallu i gydymffurfio â'r deddfau).

Yr awdurdodau lleol sy'n gallu gwrthwynebu yw:

• Bwrdeistrefi Llundain a Dinas Llundain;
• Cynghorau Sir a Dosbarth yng Nghymru a Lloegr;
• Gweithrediaethau Trafnidiaeth i Deithwyr;
• Cynghorau yn yr Alban.

Nid oes gan neb heblaw'r awdurdodau lleol a'r heddlu unrhyw hawl i wrthwynebu. Er hynny, gall y comisiynydd traffig gymryd ac ystyried sylwadau perthnasol gan unrhyw barti arall sy'n gysylltiedig, gan gynnwys gweithredwyr eraill neu aelodau o'r cyhoedd. Gellir cyflwyno'r rhain drwy lythyr neu yn ystod ymchwiliad cyhoeddus. Mater i'r comisiynydd traffig yw penderfynu faint o bwys i'w roi ar sylwadau a gaiff.

Ni all y comisiynydd traffig wrthod cais am nad yw canolfan gweithredu cerbydau gwasanaeth cyhoeddus yn amgylcheddol addas. Er hynny, mae pwerau gan awdurdodau lleol i wrthod caniatâd cynllunio os byddant wedi'u hargyhoeddi bod y safle i ganolfan weithredu arfaethedig, neu'r mynediad ati, yn anaddas. Fe'ch

cynghorir yn daer i ymgynghori’n gynnar ag adran gynllunio eich cyngor lleol.

Rhaid rhoi unrhyw wrthwynebiadau mewn llythyr a rhaid iddynt gyrraedd y comisiynydd traffig cyn pen 21 o ddiwrnodau ar ôl cyhoeddi'r cais yn *Notices and Proceedings*. Rhaid anfon copi o'r gwrthwynebiad atoch chi hefyd yr un pryd.

Os bydd gwrthwynebiad, mae'n debyg y bydd y comisiynydd traffig yn eich galw chi a'r gwrthwynebydd/gwrthwynebwyr i ymchwiliad cyhoeddus cyn penderfynu a roddir y drwydded.

Sylwch
Mae *Notices and Proceedings*, sy'n cael ei alw'n aml yn 'Ns and Ps', yn cael ei gyhoeddi bob pythefnos gan bob comisiynydd traffig. Mae'r cyhoeddiad hwn yn rhestru materion fel manylion ceisiadau am drwydded; penderfyniadau ar y ceisiadau hynny; ymchwiliadau cyhoeddus sy'n dod; penderfyniadau yn yr ymchwiliadau hynny; a manylion ceisiadau i gofrestru, amrywio a diddymu gwasanaethau bws lleol. Mae copïau o *Notices and Proceedings* ar gael yn www.businesslink.gov.uk

7. Ymchwiliadau cyhoeddus
Mater i'r comisiynydd traffig yw penderfynu a gynhelir ymchwiliad cyhoeddus. Mae'n debygol y cynhelir ymchwiliad os oes unrhyw wrthwynebiadau neu os oes unrhyw amheuon ynghylch eich cais.

Os penderfynir cynnal ymchwiliad cyhoeddus, bydd hysbysiad ysgrifenedig o'r ymchwiliad ac ym mhle y caiff ei gynnal yn cael ei anfon atoch chi ac unrhyw bartïon eraill y mae'n effeithio arnynt.

Fe'i cyhoeddir hefyd yn *Notices and Proceedings*. Rhoddir o leiaf 14 o ddiwrnodau o rybudd o drefniadau'r ymchwiliad. Gall y comisiynydd traffig ohirio neu ganslo'r ymchwiliad ar unrhyw adeg.

Cynhelir yr ymchwiliad yn gyhoeddus ond gall y comisiynydd traffig atal y cyhoedd (gan gynnwys, er enghraifft, cystadleuwyr posibl) rhag bod yn bresennol yn y rhannau o'r ymchwiliad lle y rhoddir gwybodaeth ariannol neu wybodaeth sensitif arall.

Gweithdrefnau'r ymchwiliad
Nid yw ymchwiliadau a gynhelir gan y comisiynydd traffig mor ffurfiol â llys barn, ond maent yn dilyn yr un patrwm sylfaenol. Nid oes rhaid ichi ddod â chynrychiolydd cyfreithiol neu broffesiynol. Er hynny, gan y byddai penderfyniad y comisiynydd traffig yn gallu cael sgîl-effeithiau sylweddol ar eich busnes, fe'ch cynghorir i ystyried a allai cynrychiolydd helpu i baratoi a chyflwyno'ch achos. Rhaid ichi ddarllen y papurau galw i fyny yn ofalus. Os gofynnir ichi ddarparu gwybodaeth erbyn dyddiad penodol, rhaid ichi wneud hynny.

Yn yr ymchwiliad, bydd y comisiynydd traffig yn rhoi crynodeb byr o'i bwrpas yn gyntaf. Os mai pwrpas yr ymchwiliad yw ystyried cais am drwydded, bydd y comisiynydd traffig yn gofyn cwestiynau i chi a gallai hefyd ofyn i unrhyw dystion (e.e. Archwilydd Cerbydau neu Draffig – eglurir ei bwerau yn Atodiad 9) roi adroddiad cyn gwneud penderfyniad. Byddwch yn gallu gofyn cwestiynau i'r tystion ac ateb unrhyw bwyntiau a wneir.

Os oes gwrthwynebydd i'r cais (yr awdurdod lleol neu'r heddlu), yna mae'n debyg y bydd y comisiynydd traffig yn gofyn i'r gwrthwynebydd egluro'r sail i'r gwrthwynebiad. Wedyn byddwch chi neu'ch cynrychiolydd yn gallu croesholi'r gwrthwynebydd, a fydd yn ei dro yn gallu'ch croesholi chi. Dim ond ar ôl clywed dwy ochr y ddadl y bydd y comisiynydd traffig yn rhoi penderfyniad. Caiff y comisiynydd traffig hefyd, yn ôl ei ddisgresiwn, ganiatáu i bobl eraill sydd heb hawl i wrthwynebu (ond sydd â phethau perthnasol i'w dweud am y cais) wneud eu pwyntiau yn yr ymchwiliad. Os bydd hyn yn digwydd, gallwch ofyn cwestiynau iddynt ac ateb unrhyw bwyntiau y byddant yn eu gwneud.

ADRAN DAU – Y broses ymgeisio

ADRAN TRI – Sut i gadw'ch trwydded

Os yw'r comisiynydd traffig wedi galw'r ymchwiliad i ystyried cymryd camau rheoliadol yn erbyn eich trwydded, mae'n debyg y gofynnir i'r Archwilydd Cerbydau, Archwilydd Traffig neu unrhyw un arall sydd wedi rhoi tystiolaeth fod yn bresennol i gyflwyno tystiolaeth yn yr ymchwiliad. Byddwch yn gallu gofyn cwestiynau i unrhyw dystion. Bydd y comisiynydd traffig hefyd yn gofyn cwestiynau i chi a bydd gennych hawl bob amser i'w hateb cyn gwneud penderfyniad.

Pan fydd y comisiynydd traffig yn ystyried a ydych yn bodloni'r gofynion o ran statws ariannol, gellir gofyn i asesydd ariannol eistedd yn yr ymchwiliad ac edrych ar unrhyw dystiolaeth a gyflwynwch. Gallai'r asesydd ariannol ofyn cwestiynau i chi hefyd yn ystod yr ymchwiliad a bydd y comisiynydd traffig yn ymgynghori â'r asesydd cyn gwneud penderfyniad.

Os oedd yr heddlu neu unrhyw awdurdod lleol yn gwrthwynebu'ch cais, gallant apelio i'r Tribiwnlys Trafnidiaeth yn erbyn penderfyniad gan y comisiynydd traffig i roi trwydded i chi, ond nid oes gan neb arall hawl i apelio.

Fel arfer byddwch yn gallu gweithredu dan eich trwydded newydd nes clywir yr apêl.

## 8. Gwrthod ceisiadau

### Eich hawl apelio

Os gwrthodir eich cais neu os rhoddir y drwydded dan amodau y credwch eu bod yn annerbyniol, mae gennych hawl i apelio i'r Tribiwnlys Trafnidiaeth.

Ar 3 Tachwedd 2008, lansiwyd system dribiwnlysoedd unedig newydd fel un o'r camau wrth weithredu Deddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodaeth 2007. Mae dwy haen yn y system Tribiwnlysoedd newydd – y Tribiwnlys Haen Gyntaf a'r Uwch Dribiwnlys. Trosglwyddir swyddogaethau'r Tribiwnlys Trafnidiaeth i'r system dribiwnlysoedd newydd yn ystod y 12 mis nesaf.

Bydd y Tribiwnlys yn eich galw i wrandawiad ac os bydd eich apêl yn llwyddo bydd yn gorchymyn i'r comisiynydd traffig roi trwydded i chi neu newid amodau'r drwydded wreiddiol. Fel arall, gallai gyfeirio'ch cais yn ôl i'r comisiynydd traffig i'w ailystyried. Mae mwy o wybodaeth am apeliadau ar dudalen 22 – "Apelio yn erbyn penderfyniad a wnaethpwyd gan y comisiynydd traffig".

## 9. Os cymeradwyir eich cais

### Sut byddwch yn cael eich trwydded

Bydd y comisiynydd traffig yn rhoi gwybod i chi am y penderfyniad i gymeradwyo'ch cais a bydd yn gofyn am y ffi briodol. Wedi iddo dderbyn y ffi, anfonir eich trwydded (ac unrhyw ddisgiau y talwyd amdanynt) atoch chi.

Bydd y drwydded yn cynnwys:

- enw'r gweithredwr;
- y math o drwydded;
- nifer mwyaf y cerbydau y gallwch eu rhedeg o dani;
- nifer y disgiau a roddwyd;
- unrhyw amodau sydd wedi'u gosod ar y drwydded;
- unrhyw ymrwymiadau sy'n berthnasol wrth roi'r drwydded.

Byddwch hefyd yn cael nifer y disgiau cerbyd yr ydych wedi gofyn amdanynt a thalu amdanynt hyd at y nifer mwyaf sydd wedi'i awdurdodi dan eich trwydded. Os nad ydych yn dymuno cymryd y nifer mwyaf o ddisgiau, gallwch ofyn am gael disgiau ychwanegol hyd at y nifer sydd wedi'i awdurdodi ar unrhyw adeg a gofynnir ichi dalu ffi bellach. Bydd pob disg yn dangos eich enw a rhif y drwydded ynghyd â'r dyddiad y daw'r disg i rym a'i ddyddiad dod i ben.

Sylwch

Cewch ddefnyddio, ar unrhyw adeg benodol, nifer y cerbydau y rhoddwyd disgiau ar eu cyfer yn unig a rhaid arddangos disg ar bob cerbyd a ddefnyddir.

Dylech sicrhau bod y fflyd gyfan o gerbydau'n cael ei chadw mewn cyflwr sy'n addas i'r ffordd fawr a chadw cofnodion ar gyfer pob cerbyd i brofi hyn. Os yw cerbyd oddi ar y ffordd, dylid cadw cofnod ffurfiol o'r ffaith hon.

Os defnyddiwch eich disgiau mewn mwy nag un cerbyd rhaid ichi gadw cofnodion clir i ddangos i VOSA neu unrhyw berson arall sydd wedi'i awdurdodi pa bryd yn union yr oedd pob cerbyd yn cael ei redeg.

### Pa mor hir y bydd eich trwydded yn para

O dan y system drwyddedu barhaus, ar ôl rhoi'ch trwydded bydd yn aros yn ddilys am oes oni bai ichi weithredu y tu allan i delerau'ch trwydded neu beidio â thalu'r ffi i gadw'r drwydded mewn grym pan ofynnir ichi wneud hynny.

Cysylltir â chi pan fydd taliad yn ddyledus i barhau â'ch trwydded. Bydd y ffi hon yn cadw'ch trwydded mewn grym ac yn talu am y disgiau cerbyd y mae angen ichi eu harddangos yn eich cerbydau.

Sylwch

Eich cyfrifoldeb chi yw talu'ch ffioedd yn brydlon a bydd methiant i wneud hynny'n arwain yn awtomatig at derfynu'ch trwydded.

Bob pum mlynedd bydd VOSA yn cysylltu â chi i gadarnhau crynodeb o wybodaeth sy'n cael ei dal ar eich cofnod a gofyn ichi dalu'r ffi sy'n ofynnol bryd hynny.

# ADRAN TRI – Sut i gadw’ch trwydded

Beth mae'n rhaid ichi ei wneud â'ch disgiau

Rhaid arddangos disg ar ffenestr flaen pob cerbyd gwasanaeth cyhoeddus a ddefnyddir i gludo teithwyr am dâl neu wobr. Dylid ei arddangos o'r tu mewn i'r cerbyd – yn agos i'r disg Treth Car fel arfer ac fel y gellir ei ddarllen yn rhwydd o'r tu allan yng ngolau dydd.

Sylwch

Mae'n drosedd ysgrifennu ar ddisg neu ei newid mewn unrhyw ffordd.

Os caiff eich disgiau cerbyd eu colli neu eu dwyn, rhowch wybod i VOSA ar unwaith drwy lythyr. Os deuir o hyd i ddisg coll wedyn, rhaid ei ddychwelyd. Rhoddir disgiau dyblyg ar ôl talu ffi weinyddu. Os yw'r ysgrifen ar ddisg wedi pylu fel na ellir ei darllen, neu os yw'r disg wedi'i ddifrodi, dylid ei ddychwelyd i VOSA a fydd yn rhoi disg yn ei le yn rhad ac am ddim.

Fel arfer gallwch gyfnewid disgiau rhwng y naill gerbyd a'r llall o fewn yr un drwydded gweithredwr ar yr amod bod disg ar bob cerbyd pryd bynnag y caiff ei ddefnyddio o dan y drwydded.

10. Mathau o wasanaeth y gallwch eu rhedeg â thrwydded cerbydau gwasanaeth cyhoeddus

Heb ffurfioldebau pellach gallwch wneud y canlynol:

- cludo parti o deithwyr am un taliad gan y trefnydd (gelwir hyn yn 'llogi preifat') – ni chaiff y teithwyr dalu am docynnau ar wahân i chi nac i unrhyw un sy'n gweithredu fel asiant i chi. Mae hyn yn gymwys i gerbydau gwasanaeth cyhoeddus sydd â naw neu fwy o seddau teithwyr yn unig;
- rhedeg gwasanaeth coets lle codir prisiau tocynnau ar wahân (ond rhaid i deithwyr deithio o leiaf 15 milltir wedi'u mesur ar hyd llinell syth o'r man y daethant ar y cerbyd – oni bai fod angen iddynt fynd oddi arno mewn argyfwng);
- rhedeg gwibdaith neu daith bleser am lai na chwe wythnos olynol, beth bynnag fo'r pellter;
- rhedeg gwibdaith neu daith bleser dros bellter hir lle mae pawb yn teithio mwy na 15 milltir o'r man y daethant ar y cerbyd ac wedyn yn dychwelyd.

Os ydych am redeg gwasanaeth lleol (y mae teithwyr yn talu prisiau tocynnau ar wahân arno ac a fydd yn mynd â hwy llai na 15 milltir) mae rhai pethau ychwanegol y mae'n rhaid ichi eu gwneud (gwelwch isod).

Materion i'w cadw mewn cof

Gallwch redeg y gwasanaethau sydd wedi'u disgrifio uchod ond dylech nodi'r canlynol:

- yn achos cerbyd sydd â mwy nag wyth o seddau teithwyr mae yn erbyn y gyfraith ceisio ei hurio allan fel tacsi;
- yn achos cerbyd sydd ag wyth o seddau teithwyr neu lai ni allwch wneud unrhyw waith y mae angen trwydded tacsi, cerbyd llogi preifat neu gar llogi preifat ar ei gyfer os oes yn yr ardal dan sylw system i drwyddedu un ai tacsis, cerbydau llogi preifat neu geir llogi preifat – oni bai eich bod yn codi prisiau tocynnau ar wahân neu ei fod yn rhan fach o weithrediad bysiau mawr;

• bydd eich awdurdod lleol, neu yn Llundain, Swyddfa Cludiant Cyhoeddus Llundain, yn dweud wrthych beth yw'r rheolau trwyddedu lleol ar gyfer tacsis, cerbydau llogi preifat neu geir llogi preifat;
• efallai y bydd arnoch angen trwydded arall i redeg gwasanaeth lleol yn Llundain (gwelwch isod);
• mae cyfyngiadau ar gludo alcohol mewn cerbydau a ddefnyddir i fynd â theithwyr i ddigwyddiadau chwaraeon penodol.

Rhedeg gwasanaeth bws lleol

Y tu allan i Lundain (gwelwch Atodiad 8)
Os ydych yn bwriadu rhedeg gwasanaeth bws lleol, cyn yr adeg yr ydych am i'r gwasanaeth ddechrau rhaid ichi gofrestru'r manylion, gan gynnwys y llwybr a'r amserlen, gyda'r comisiynydd traffig.

Gallai amodau rheoleiddio traffig fod mewn grym mewn mannau lle mae problemau traffig neu dagfeydd traffig difrifol, perygl posibl i ddefnyddwyr ffyrdd neu bryderon ynghylch lefel sŵn ac allyriadau o injans.

Bydd yr amodau hyn yn gymwys i'r holl wasanaethau lleol sydd wedi'u cofrestru yn yr ardal yr effeithir arni. Os ydych yn ystyried cofrestru gwasanaeth lleol sy'n mynd drwy le y mae amodau rheoleiddio traffig mewn grym ynddo, dylech gysylltu â VOSA a fydd yn rhoi cyngor ac arweiniad ar y camau y mae'n rhaid ichi eu cymryd.

Mae awdurdod lleol sydd â chyfrifoldebau dros draffig (h.y. awdurdod traffig) yn gallu gofyn i'r comisiynydd traffig osod amodau rheoleiddio traffig ar ardal benodol. Os bydd awdurdod traffig yn gofyn am amodau rheoleiddio traffig a fyddai'n effeithio ar un o'ch gwasanaethau cofrestredig, bydd y comisiynydd traffig yn rhoi cyfle ichi gyflwyno sylwadau mewn ymchwiliad. Os gosodir amodau y credwch eu bod yn annheg neu'n ddiangen, gallwch apelio i'r Tribiwnlys Trafnidiaeth. Mae mwy o gyngor ar gael yn *Canllaw i Gofrestru Gwasanaethau Bws Lleol* (PSV 353A) neu PSV 353A (Yr Alban).

Rhaid ichi roi rhybudd hefyd cyn ichi newid neu ganslo'r gwasanaeth. Cyn cofrestru dylech ddarllen y canllaw sydd wedi'i nodi uchod. Mae mwy o wybodaeth am wasanaethau bws a'r safonau y mae'n rhaid ichi lynu wrthynt yn Atodiad 8.

Mae cyngor ar gael ar gofrestru gwasanaethau bws lleol hyblyg yn *A Guide to Flexible Local Bus Service Registrations* (PSV 358A).

O fewn Llundain
Mae system wahanol ar gyfer gwasanaethau lleol sydd â mannau aros o fewn Llundain. Mae'r rhan fwyaf o wasanaethau yn Llundain yn cael eu gweithredu dan gontract i Transport for London (TfL).

Dyfernir contractau ar ôl tendro cystadleuol. Mae nifer bach o wasanaethau hefyd sy'n rhan o rwydwaith bysiau TfL a gaiff ei redeg dan Gytundeb Gwasanaeth Lleol Llundain â TfL. Mae gwasanaethau eraill sy'n cynnwys gwasanaethau coetsys i gymudwyr ac ymwelwyr yn rhedeg dan Ganiatâd Gwasanaeth Llundain a roddir gan

TfL.
Os ydych yn dymuno ymgeisio am Ganiatâd Gwasanaeth Llundain, neu os oes arnoch angen eglurhad ynghylch gwasanaeth yr ydych yn bwriadu ei redeg yn Llundain, mae angen ichi gysylltu â'r canlynol: Licensing Manager, Surface Transport Communications, 11th Floor, Palestra, 197 Blackfriars Road, Llundain SE1 8NJ neu drwy'r e-bost yn lsp@t..gov.uk

Gweithrediadau rhyngwladol
Mae hyn yn gymwys i ddeiliaid trwyddedau gweithredwr rhyngwladol safonol a chyfyngedig. Mae'r ddwy drwydded hyn yn awdurdodi rhedeg cerbydau gwasanaeth cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig ac mewn gwledydd tramor. Mae trwydded genedlaethol safonol yn rhoi awdurdod i redeg cerbydau gwasanaeth cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig yn unig.
ADRAN TRI – Sut i gadw'ch trwydded

ADRAN TRI – Sut i gadw'ch trwydded

Os yw gweithredwr yn dymuno defnyddio ei gerbydau gwasanaeth cyhoeddus i fynd â theithwyr dramor i Aelod-wladwriaethau eraill, rhaid iddo gael trwydded Cymuned, a roddir gan y comisiynydd traffig. Rhaid i'r gweithredwr gadw'r drwydded wreiddiol a rhaid cadw copi ardystiedig ohoni ym mhob cerbyd a ddefnyddir mewn gweithrediad trafnidiaeth rhyngwladol.

O dan reoliadau'r CE mae gweithredwr sydd wedi'i drwyddedu mewn un Aelod-wladwriaeth hefyd yn cael rhedeg gwasanaethau teithwyr rhyngwladol dros dro mewn Aelod-wladwriaeth arall heb iddi fod yn ofynnol iddo fod â swyddfa gofrestredig neu sefydliad arall yn y Wladwriaeth honno. Gelwir hyn yn fasnach arforol. Mae angen cael trwydded Cymuned a rhaid cadw copi ardystiedig o'r dystysgrif yn y cerbyd.

Ar gyfer gwasanaethau rheolaidd bydd angen ichi gael caniatâd gan yr Adran Drafnidiaeth, a chan yr awdurdodau priodol yn y gwledydd yr ydych yn ymweld â hwy.

Gellir cael ffurflenni cais i redeg gwasanaeth rheolaidd rhwng Aelod-wladwriaethau'r UE a rhwng y DU a gwledydd y tu allan i'r UE gan y Swyddfa Cludiant Ffyrdd Rhyngwladol (IRFO) yn City House, 126–130 Hills Road, Caergrawnt CB2 1NP. Gellir gofyn am gyngor ar weithrediadau rhyngwladol drwy ffonio 01223 531030.

Os yw gweithredwr yn dymuno rhedeg gwasanaeth gwennol, fe'i cynghorir i gysylltu ag IRFO i gael mwy o wybodaeth.

Ar gyfer teithiau eraill, mae'n ofynnol cael teithrestrau (ffurflenni taith) a gellir eu prynu gan y Cydffederasiwn Cludiant Teithwyr drwy ysgrifennu at Confederation of Passenger Transport, 3rd Floor, Drury House, 34–43 Russell Street, Llundain WC2B 5HA. Ffôn 020 7240 3131, ffacs 020 7240 6565 neu'r e-bost admin@cpt-uk.org

Dylai cyrff di-elw ymgeisio i IRFO am dystysgrif hunangofnodi i ddefnyddio eu cerbydau i gludo eu haelodau eu hunain mewn gwledydd tramor.

## 11. Llogi gan weithredwyr eraill

### Dulliau llogi

Gallwch logi cerbydau gan weithredwyr eraill mewn dwy ffordd:

1) Efallai y byddwch am logi cerbydau pryd bynnag y bydd rhai o'ch cerbydau chi oddi ar y ffordd wrth gael eu trwsio. Os felly, cewch logi cerbydau am gyfnod mor hir ag y dymunwch ar yr amod na fyddwch yn rhedeg mwy na chyfanswm nifer y cerbydau sydd wedi'i awdurdodi ar eich trwydded. Rhaid ichi arddangos eich disgiau eich hun ar y cerbydau llog hyn. Gofalwch eich bod yn tynnu'r disgiau oddi ar unrhyw gerbydau sydd allan o wasanaeth wrth ichi gael rhai yn eu lle, neu oddi ar unrhyw gerbydau sy'n cael eu dychwelyd i'r gweithredwr y gwnaethoch eu llogi ganddo. Byddwch yr un mor gyfrifol am y cerbydau llog hyn ag y byddech pe byddech yn eu gweithredu'n barhaol, felly dylech sicrhau eu bod mewn cyflwr mecanyddol da cyn ichi eu llogi. Chi fydd cyflogwr y gyrrwr hefyd.

2) Cewch logi cerbydau dros dro hefyd (ynghyd â gyrrwr neu hebddo) am hyd at 14 o

ddiwrnodau heb roi disgiau yn lle disgiau’r gweithredwr y gwnaeth eu llogi ganddo; serch hynny, ni allwch gymryd benthyg disg gan weithredwr arall. Rhaid bod bwlch o 14 o ddiwrnodau cyn ichi logi’r un cerbyd eto. Trefniant arbennig yw hwn i ddarparu ar gyfer argyfyngau annisgwyl neu adegau prysur yn eich busnes pan fydd arnoch angen mwy o gerbydau nag y cawsoch eich trwyddedu i’w gweithredu. Yn yr achos hwn, mae’r gweithredwr a huriodd allan y cerbyd i chi’n dal yn weithredwr arno o dan y gyfraith, cyhyd ag y mae ei ddisg wedi’i arddangos. Dylech sicrhau bod y cytundeb llogi yr ydych wedi’i wneud ag ef yn rhoi pob cyfrifoldeb arno i gynnal a chadw’r cerbydau hyd yn oed pan fyddant yn eich meddiant chi. (Er hynny, rhaid i’ch gyrwyr eich hun ddal i wneud y gwiriadau cerdded o gwmpas dyddiol fel y maent wedi’u disgrifio yn yr adran rydd o’r *Guide to Maintaining Roadworthiness*.)

Sylwch

Os byddwch yn llogi cerbyd gan rywun, rydych chi'n gyfrifol am ei weithredu fel ei fod yn ddiogel ac yn addas i'r ffordd fawr. Dylech sicrhau bod gwiriadau priodol yn cael eu gwneud cyn ac yn ystod y defnydd ohono. Rhaid ichi gadw cofnodion priodol o'r defnydd o'r cerbyd gan gynnwys trefniadau llogi a chynnal a chadw, gan sicrhau bod tystysgrif addasrwydd gychwynnol ar ei gyfer.

Os ydych yn dal trwydded gyfyngedig, ni allwch logi cerbydau sy'n cludo mwy nag 16 o deithwyr.

## 12. Gwneud newidiadau yn eich trwydded

### Cynyddu nifer y cerbydau sydd wedi'u hawdurdodi dan y drwydded

Os ydych am weithredu mwy o gerbydau na'r cyfanswm sydd wedi'i awdurdodi ar eich trwydded dylech ymgeisio i amrywio'ch trwydded ar ffurflen PSV 431. Dylech ganiatáu hyd at naw wythnos ar gyfer danfon eich trwydded.

Mae angen ichi gyflwyno'r ffurflen i'r Uned Drwyddedu Ganolog (gwelwch Atodiad 11) ynghyd ag unrhyw ffi berthnasol. Bydd y comisiynydd traffig yn ystyried wedyn a oes gennych ddigon o arian a chyfleusterau neu drefniadau cynnal a chadw digonol i weithredu'r cerbydau ychwanegol. Os bydd wedi'i fodloni, bydd y comisiynydd traffig yn amrywio'ch trwydded wedi ichi dalu'r ffi. Rhoddir disgiau ychwanegol ac arnynt yr un dyddiad dod i ben â'r rheini sydd gennych eisoes ar ôl talu'r ffi ar wahân am ddisgiau.

Cewch ofyn am nifer llai o ddisgiau os dymunwch a chynyddu'r nifer hyd at y nifer mwyaf sydd wedi'i awdurdodi wrth i'ch busnes ehangu.

Sylwch

Rhaid ichi beidio â rhedeg cerbydau ychwanegol nes bydd hyn wedi'i awdurdodi'n benodol gan y comisiynydd traffig. Cofiwch fod rhaid arddangos disg dilys ar bob cerbyd sy'n cael ei weithredu dan eich trwydded.

### Lleihau nifer y cerbydau yr ydych yn eu gweithredu

Gallwch hefyd leihau'r nifer sydd wedi'i awdurdodi ar eich trwydded drwy ymgeisio am amrywio'ch trwydded ar ffurflen PSV 431A.

Byddwch wedyn yn gallu cael ad-daliad, ar yr amod eich bod yn dychwelyd y disgiau nad oes arnoch eu hangen bellach. Bydd swm yr ad-daliad yn dibynnu ar nifer y disgiau a ddychwelwch a nifer y misoedd cyfan sydd ar ôl ar y disgiau. Fe'i telir ar gyfradd y ffi wreiddiol a dalwyd. Dim ond drwy ymgeisio am amrywio'ch trwydded i'r comisiynydd traffig y cewch hawl i gael ad-daliad, nid drwy benderfynu rhedeg llai o gerbydau nag sydd wedi'i awdurdodi ar eich trwydded.

Ceir rhoi ad-daliadau os rhowch y gorau i weithredu mewn ardal draffig ac ildio'ch trwydded yn llwyr.

### Gwneud newidiadau eraill

Os oes amodau ar eich trwydded sy'n eich atal rhag gweithredu mathau penodol o gerbydau, neu'n gadael ichi weithredu cerbydau penodedig yn unig, cewch ymgeisio am amrywio'r amod neu ei ddileu o'ch trwydded.

Efallai y bydd angen ichi brofi i'r comisiynydd traffig fod eich cyfleusterau neu

drefniadau cynnal a chadw bellach yn ddigonol ar gyfer y cerbydau yr ydych am eu rhedeg, neu nad yw'r amod yn angenrheidiol neu'n briodol bellach.

ADRAN TRI – Sut i gadw'ch trwydded

## ADRAN TRI – Sut i gadw'ch trwydded

Cewch ymgeisio hefyd i'r comisiynydd traffig am amrywio neu ddileu ymrwymiadau a wnaethoch pan roddwyd eich trwydded. Os gwrthodir eich cais, cewch apelio i'r Tribiwnlys Trafnidiaeth.

### Uwchraddio trwydded gyfyngedig

Os ydych yn dymuno uwchraddio trwydded gyfyngedig yn drwydded safonol bydd yn rhaid ichi wneud cais newydd i'r comisiynydd traffig am drwydded newydd gan ddefnyddio ffurflen PSV 421. Gofynnir am brawf o gymhwysedd proffesiynol a bydd angen ailystyried eich statws ariannol. Ni allwch gyfnewid trwydded gyfyngedig am drwydded safonol.

Gallwch ymgeisio am uwchraddio trwydded genedlaethol safonol yn un rhyngwladol drwy amrywio'ch trwydded bresennol. Mae'n ofynnol rhoi prawf o gymhwysedd proffesiynol i redeg gweithrediadau rhyngwladol. Bydd angen ichi ddychwelyd eich dogfennau trwydded a'ch disgiau cerbyd fel y gellir rhoi rhai newydd.

### Newid yn eich amgylchiadau

Rhaid ichi hysbysu'r comisiynydd traffig drwy lythyr o fewn 28 o ddiwrnodau (drwy gysylltu â'r Uned Drwyddedu Ganolog) am unrhyw un o'r newidiadau canlynol:

1. Unrhyw newid yn endid cyfreithiol eich busnes:
• os byddwch yn newid o fod yn unig fasnachwr neu'n bartneriaeth i fod yn gwmni cyfyngedig; neu
• os bydd strwythur cwmni cyfyngedig yn newid, fel bod y rhif cwmni cofrestredig yn newid.
• newid sylweddol yn y cwmni fel newid cyfarwyddwyr, neu newid yn y cyfranddaliadau.

Sylwch

Mae yn erbyn y gyfraith gweithredu fel endid newydd heb ddweud wrth y comisiynydd traffig. Rhaid cael trwydded newydd i'r endid newydd cyn gweithredu.

2. Unrhyw achosion o farwolaeth personau sydd wedi'u henwi ar y drwydded, methdaliad personol neu fethdaliad cwmni neu ddiddymu ymysg y rheini sy'n ymwneud â rheoli'r cwmni neu sefyllfaoedd tebyg. Yn y rhan fwyaf o achosion terfynir y drwydded yn awtomatig oni bai fod y comisiynydd traffig yn rhoi caniatâd arbennig iddi barhau am gyfnod penodedig. Ar gais y gweithredwr gall y comisiynydd traffig roi estyniad o hyd at 18 mis.
3. Newid rheolwr trafnidiaeth, gyda thystiolaeth o gymhwysedd proffesiynol y rheolwr newydd.
4. Newid partneriaid mewn cwmni sy'n bartneriaeth (mewn rhai achosion gallai fod angen ichi gael trwydded newydd).
5. Unrhyw euogfarnau perthnasol a gawsoch chi, eich rheolwr trafnidiaeth, swyddogion, cyflogeion neu asiantau.
6. Unrhyw newid yn y cyfeiriad ar gyfer gohebu a roesoch wrth wneud eich cais.
7. Unrhyw newid yng nghyfeiriad eich canolfan(nau) gweithredu.
8. Unrhyw newidiadau eraill y gallai'r comisiynydd traffig fod wedi mynnu ichi roi gwybod amdanynt fel amod wrth roi trwydded i chi.

Caiff y comisiynydd traffig fynnu hefyd eich bod yn rhoi gwybodaeth am y cerbydau a ddefnyddir dan eich trwydded gweithredwr. Mater i'r comisiynydd traffig yw penderfynu union fanylion y wybodaeth sy'n ofynnol ond mae'n debygol o gynnwys manylion rhifau cofrestru'r cerbydau.

Sylwch
Mae dyletswydd gyfreithiol arnoch i hysbysu VOSA cyn gynted ag sy'n bosibl am unrhyw ddiffyg yn eich cerbyd neu ddifrod iddo a allai effeithio ar ddiogelwch eich teithwyr neu ddefnyddwyr ffyrdd eraill ac am unrhyw newidiadau sydd wedi'u gwneud yn ei adeiladwaith neu gyfarpar gosod.

Bob pum mlynedd anfonir rhestr atoch o'r wybodaeth sydd wedi'i dal ar eich trwydded fel y gallwch ei gwirio a diweddaru unrhyw fanylion sy'n anghywir. Peidiwch ag aros i gael y rhestr wirio cyn dweud wrth y comisiynydd traffig am unrhyw newidiadau: rhaid ichi roi gwybod amdanynt cyn gynted ag sy'n bosibl wedi iddynt ddigwydd a dim hwyrach nag 28 o ddiwrnodau wedyn.

13. Beth fydd yn digwydd os gwnaf gamgymeriad?
Tystiolaeth
Gellir dod â thystiolaeth o ddiffyg cydymffurfio i sylw'r comisiynydd traffig o nifer o ffynonellau, archwilwyr VOSA fel arfer. Mae nifer mawr o bwerau gwahanol ar gael i VOSA a disgrifir rhai enghreifftiau yn Atodiad 9.

Caiff y comisiynydd traffig gymryd camau yn erbyn eich trwydded:
• os nad ydych bellach yn cwrdd â'r gofynion o ran bod ag enw da i chi neu statws ariannol;
• yn achos trwydded safonol, os nad oes person proffesiynol gymwys bellach yn gweithio yn y cwmni (gwelwch Atodiad 4);
• os gwnewch ddatganiad anwir i gael trwydded, neu os ydych heb ddal at gytundeb a wnaethoch wrth ymgeisio am eich trwydded;
• os ydych wedi torri amod neu heb gadw unrhyw ymrwymiad sydd yn eich trwydded;
• os yw Archwilydd Cerbydau wedi gwahardd defnyddio unrhyw un o'ch cerbydau oherwydd ei gyflwr peryglus; os nad yw'ch cerbydau wedi'u cadw mewn cyflwr diogel ac addas i'r ffordd fawr; neu os na lynwyd wrth reolau ynghylch gweithredu cerbydau'n ddiogel a rheoliadau oriau gyrwyr;
• os bu newid mewn amgylchiadau sy'n effeithio ar eich addasrwydd fel gweithredwr; neu
• os bu newid perthnasol, e.e. mae busnes wedi newid o fod yn unig fasnachwr neu'n bartneriaeth i fod yn gwmni cyfyngedig. Byddai hyn yn golygu'r hyn a elwir yn newid yn ei endid cyfreithiol.

Os ydych yn rhedeg gwasanaeth lleol mewn modd annibynadwy neu beryglus, gall y comisiynydd traffig roi amod ar eich trwydded a fydd yn eich atal rhag rhedeg un ai'r gwasanaeth hwnnw, neu unrhyw wasanaethau lleol. Os bu diffygion o ran cynnal a chadw, neu os yw cerbydau wedi'u cyfnewid rhwng gweithredwyr i osgoi gorfodaeth, caiff y comisiynydd traffig ragnodi y cewch redeg cerbydau penodol yn unig ac nid rhai eraill.

Y camau y gall y comisiynydd traffig eu cymryd
Mae gan y comisiynydd traffig bŵer i ddiddymu trwydded (ei chymryd oddi arnoch) neu ei hatal fel na allwch ei defnyddio am gyfnod penodol neu nes bydd rhyw ddiffyg yn eich gweithrediad wedi'i gywiro.
Caiff y comisiynydd traffig hefyd leihau nifer y cerbydau sydd wedi'u hawdurdodi

neu roi amodau ar eich trwydded fel na fyddwch ond yn gallu rhedeg mathau penodol o gerbyd (e.e. dim byd mwy na bws mini).

Gall y comisiynydd traffig hefyd roi amodau ar eich trwydded i reoli coetsys sy’n cludo cefnogwyr pêl-droed, yn nodi’r amseroedd pan gewch adael a chyrraedd a pha doriadau y cewch eu cymryd yn ystod y siwrneiau. Mae cod ymarfer gwirfoddol ar gyfer hyn hefyd.

ADRAN TRI – Sut i gadw’ch trwydded

Gall y comisiynydd traffig hefyd roi cosb ariannol am redeg gwasanaethau lleol mewn modd annibynadwy.

Yn y rhan fwyaf o achosion bydd y comisiynydd traffig yn gofyn ichi ddod i ymchwiliad cyn cymryd unrhyw gamau yn erbyn eich trwydded. Os na wnaiff y comisiynydd traffig hynny, mae gennych hawl i ofyn am gynnal ymchwiliad.

Mewn rhai achosion, caiff y comisiynydd traffig gymryd camau ar unwaith (e.e. er mwyn diogelwch cyhoeddus) a chynhelir yr ymchwiliad yn ddiweddarach. Gallwch gael cynghorydd cyfreithiol neu broffesiynol i’ch cynrychioli os dymunwch.

## Apelio yn erbyn penderfyniad a wnaethpwyd gan y comisiynydd traffig

Cewch apelio i’r Tribiwnlys Trafnidiaeth os bydd y comisiynydd traffig yn cymryd camau rheoliadol yn erbyn eich trwydded neu’n gosod amod.

Os yw’ch trwydded wedi’i diddymu neu ei hatal neu os yw amodau wedi’u gosod arni, bydd hyn yn dechrau ar y dyddiad sydd wedi’i bennu gan y comisiynydd traffig.

Gallwch ofyn i’r comisiynydd traffig ohirio unrhyw benderfyniad wrth ddisgwyl apêl ac os bydd y comisiynydd traffig yn gwrthod, gallwch apelio i’r Tribiwnlys Trafnidiaeth wneud cyfarwyddyd arbennig (o’r enw ‘gohiriad’) a fydd yn gadael ichi fynd ymlaen fel yr oeddech o’r blaen nes clywir yr apêl.

Rhaid i’r Tribiwnlys Trafnidiaeth ddod i benderfyniad ar y cais hwn am ohiriad o fewn 14 o ddiwrnodau. Beth bynnag fydd ei benderfyniad ni fydd hyn yn effeithio ar ganlyniad yr apêl pan glywir hi.

Mae llyfryn o’r enw *Appeals to the Transport Tribunal* ar gael am ddim gan y Tribiwnlys Trafnidiaeth (mae’r cyfeiriad yn Atodiad 11).

## Ymgeisio am drwydded arall ar ôl diddymu’ch trwydded

Gallwch ymgeisio am drwydded arall os yw un wedi’i diddymu ond dylech aros nes eich bod wedi rhoi trefn ar bethau ac yn gallu bodloni’r comisiynydd traffig eich bod bellach yn berson addas i redeg cerbydau gwasanaeth cyhoeddus. Rhaid ichi ddatgan pob trwydded flaenorol wrth wneud cais newydd.

## Sylwch

Mae pŵer gan y comisiynydd traffig i wahardd unrhyw un y mae ei drwydded wedi’i diddymu rhag dal trwydded gweithredwr yn yr ardal draffig honno neu unrhyw un arall am gyfnod amhenodol neu am gyfnod penodedig. Os yw’r gwaharddiad yn gymwys i ardal draffig arall, caiff y drwydded ei hatal yn awtomatig o ddyddiad y gorchymyn gwahardd.

Caiff gorchymyn gwahardd eich atal hefyd rhag gweithredu mewn partneriaeth neu rhag bod yn gyfarwyddwr neu’n brif gyfranddaliwr mewn unrhyw gwmni sy’n rhedeg cerbydau gwasanaeth cyhoeddus. Gellir hefyd ddiddymu trwyddedau gweithredwyr sy’n cael eu dal gan bartneriaethau neu gwmnïau yr ydych yn gysylltiedig â hwy, ond ni fydd y comisiynydd traffig yn debygol o gymryd cam mor ddifrifol oni bai fod

cyfiawnhad pendant iawn drosto. Mae gennych hawl apelio i'r Tribiwnlys Trafnidiaeth yn erbyn gorchymyn gwahardd.

Os byddwch yn teimlo, ar ôl rhyw gyfnod, fod eich amgylchiadau wedi gwella, cewch ymgeisio i'r comisiynydd traffig am gael dileu neu amrywio'r gorchymyn.

Fel y nodwyd yn adran 2.8, caiff swyddogaethau'r Tribiwnlys Trafnidiaeth eu trosglwyddo i'r system dribiwnlysoedd newydd yn ystod y 12 mis nesaf. Bydd rheolau trefniadol newydd yn gymwys, ac mae'n bosibl y gellid newid rhai o'r terfynau amser. Mae mwy o wybodaeth ar gael gan y Gwasanaeth Tribiwnlysoedd yn www.tribunals.gov.uk.

## 14. O ble i gael mwy o wybodaeth

Mae rhestr yn Atodiad 10 o wahanol Ddeddfau Seneddol, rheoliadau, canllawiau a llyfrynnau a allai roi atebion llawnach i'ch cwestiynau.
Gallwch gael mwy o wybodaeth hefyd yn www.businesslink.gov.uk

Os oes arnoch angen mwy o gymorth neu gyngor, cysylltwch â VOSA (gwelwch Atodiad 11).

Mae'n bosibl y bydd y Cydffederasiwn Cludiant Teithwyr yn gallu'ch helpu hefyd.

Os ydych yn ystyried gweithredu gwasanaethau bws lleol, dylech gysylltu â'r awdurdod lleol priodol, neu gorff cyfatebol:

- ar gyfer gwasanaethau yn Llundain – Transport for London;
- ar gyfer gwasanaethau yn y chwe ardal Fetropolitanaidd yn Lloegr – y Weithrediaeth Cludiant Teithwyr;
- ar gyfer gwasanaethau mewn rhannau eraill o Loegr neu unrhyw ran o Gymru – y Swyddfa Cydgysylltu Trafnidiaeth ar gyfer yr awdurdod sirol/unedol;
- ar gyfer gwasanaethau yn yr Alban – y Swyddog Cydgysylltu Trafnidiaeth ar gyfer y cyngor perthnasol.

# ADRAN TRI – Sut i gadw'ch trwydded

# ATODIADAU

## Atodiad 1

### Defnyddio limwsîn hir ar drwydded gweithredwr

Bu mwy o ddefnydd o limwsinau hir ar ein ffyrdd. Er bod eu golwg yn wahanol i gerbydau traddodiadol oherwydd arddull y corff, maent yn dal i gael eu hystyried yn geir, bysiau mini, coetsys neu fysiau. Mae angen gweithredu pob cerbyd o fath y limwsîn hir o dan system drwyddedu gan ei fod yn drosedd gweithredu cerbyd llogi (h.y. cludo teithwyr sy'n talu yng nghwrs busnes, am daliad neu fel arall) heb drwydded.

Mewnforir y rhan fwyaf o lawer o'r limwsinau hir a ddefnyddir ym Mhrydain Fawr o UDA. Mae gwahaniaethau arwyddocaol yn y ddeddfwriaeth sy'n rheoli adeiladwaith a'r defnydd o gerbydau yn UDA, felly bydd angen gwneud addasiadau yn y cerbydau hyn (addasiadau sylweddol yn achos cerbydau mwy) er mwyn cydymffurfio â'r gofynion ym Mhrydain a'u gwneud yn addas i'w llogi.

Gellir rhannu limwsinau hir yn dri grŵp gwahanol ar sail nifer y seddau. Nodir y math o gerbyd yng nghyfarwyddeb fframwaith Cymeradwyaeth Math Cerbyd Cyfan y Gymuned Ewropeaidd (ECWVTA) ac mae'n dosbarthu'r cerbydau fel a ganlyn:

- M1 cerbydau wedi'u dylunio a'u hadeiladu i gludo teithwyr ac yn cynnwys dim mwy nag wyth o seddau yn ychwanegol at sedd y gyrrwr;
- M2 cerbydau wedi'u dylunio a'u hadeiladu i gludo teithwyr, yn cynnwys mwy nag wyth o seddau yn ychwanegol at sedd y gyrrwr, ac iddynt fàs mwyaf nad yw'n fwy na 5 tunnell (bysiau mini yn y bôn);
- M3 cerbydau wedi'u dylunio a'u hadeiladu i gludo teithwyr, yn cynnwys mwy nag wyth o seddau yn ychwanegol at sedd y gyrrwr, ac iddynt fàs mwyaf sy'n fwy na 5 tunnell (coetsys mawr a bysiau).

Y prif bwrpas i gymeradwyaeth mathau o gerbydau yw sicrhau bod pob cerbyd wedi'i ddylunio a'i adeiladu'n unol â safonau modern o ran diogelwch a'r amgylchedd cyn y gellir ei ddefnyddio ar ffyrdd cyhoeddus.

Bydd dosbarthiadau'r mathau o gerbyd yn pennu'r gofynion ar gyfer cofrestru a chymeradwyaeth math y bydd yn rhaid i'r cerbyd eu bodloni a hefyd y system drwyddedu y bydd yn rhaid gweithredu'r cerbyd o dani.

### Limwsinau â mwy nag wyth o seddau teithwyr (M2 a M3)

Adeiladwyd y rhan fwyaf o'r limwsinau mawr hyn yn wreiddiol yn UDA ac nid ydynt yn cydymffurfio â gofynion Prydeinig ar gyfer cerbyd sy'n dal y nifer hwn o deithwyr. Y prif feysydd lle mae anghydffurfio yw'r cylch troi, maint yr allanfa argyfwng a diffyg 'marciau E' ar ddrychau, gwregysau diogelwch, gwydr a goleuadau i ddangos cydymffurfiad â deddfau Ewropeaidd.

Yn achos cerbydau sydd â mwy nag wyth o seddau teithwyr, nid oes gofyniad am gymeradwyaeth math neu gymeradwyaeth cerbyd sengl (SVA) ar hyn o bryd; er hynny, rhaid i'r cerbydau gwrdd â'r gofynion Prydeinig ar gyfer eu defnyddio ar ffyrdd. Mae gofyniad am gael Tystysgrif Addasrwydd Gychwynnol (COIF) i'r cerbyd os yw i gael ei ddefnyddio ar y ffordd i gludo teithwyr sy'n talu fel cerbyd gwasanaeth cyhoeddus.

Ar ôl cael y Dystysgrif Addasrwydd Gychwynnol berthnasol i gerbyd, gellir ei drwyddedu yn yr un modd yn union ag unrhyw fws neu goets traddodiadol.

Sylwch

Os ydych yn ystyried defnyddio limwsîn mawr, mae'n hanfodol iddo fod wedi'i adeiladu a'i gymeradwyo'n unol â safonau COIF llawn, fel arall byddwch yn cyflawni trosedd.

Limwsinau â hyd at wyth o seddau teithwyr (M1)
Adeiladwyd y rhan fwyaf o'r limwsinau bach yn UDA yn wreiddiol ac nid ydynt yn cydymffurfio â gofynion Prydeinig ar gyfer cerbyd sy'n dal y nifer hwn o deithwyr. Er mwyn iddo fod yn gyfreithlon ei ddefnyddio ar y ffordd ym Mhrydain Fawr rhaid i'r cerbyd gyrraedd safonau ECWVTA neu gellir ei gyflwyno i VOSA ar gyfer cymeradwyaeth cerbyd sengl (SVA), sy'n gwirio cydymffurfiad â gofynion adeiladu Prydeinig. Drwy roi cymeradwyaeth gellir ei gofrestru gyda'r DVLA. Bydd y DVLA yn gwrthod cofrestru cerbyd sydd heb gymeradwyaeth math neu dystysgrif SVA.

Sylwch
Os ydych yn ystyried defnyddio limwsîn ag wyth o seddau teithwyr, mae'n hanfodol iddo fod wedi'i adeiladu a'i gymeradwyo'n unol â safonau ECWVTA neu SVA, fel arall byddwch yn cyflawni trosedd.

Fel arfer bydd limwsinau â hyd at wyth o seddau teithwyr yn cael eu rhedeg fel cerbydau llogi preifat, sy'n golygu y gellir eu galw dros y ffôn ond nid ar y stryd. Nid yw'r rheolau ar gyfer cerbydau llogi preifat yn mynnu bod prisiau tocynnau ar wahân; rheol 15 milltir; neu ddarpariaeth esemptio 'gwibdeithiau a theithiau pleser' (gwelwch isod). Mae'r sail i weithredu limwsinau dan drwydded cerbyd llogi preifat yn llawer llai cyfyngiadol na thrwydded gweithredwr cerbydau gwasanaeth cyhoeddus. Gweinyddir trwyddedau cerbydau llogi preifat y tu allan i Lundain gan yr awdurdod lleol perthnasol neu yn Llundain gan Transport for London (TfL), sydd â disgresiwn ynghylch y cerbydau y gwnaiff eu trwyddedu.

Mae posibilrwydd hefyd o drwyddedu limwsinau gyda chomisiynwyr traffig fel bysiau bach. Er nad oedd yn fwriad i'r ddeddfwriaeth hwyluso hyn, gall comisiynydd traffig roi trwydded.

Os yw gweithredwr yn bwriadu rhedeg gwasanaethau gan ddefnyddio limwsîn hir fel cerbyd gwasanaeth cyhoeddus bach, bydd y comisiynydd traffig yn mynnu cael cyflawni'r ymrwymiadau neu amodau canlynol gan yr ymgeisydd, a chofnodir y rhain ar y drwydded.

Rhaid ichi gadw at unrhyw ymgymeriadau neu amodau o'r fath, neu caiff y comisiynydd traffig gymryd camau rheoliadol yn erbyn eich trwydded.
Mae enghreifftiau o'r rhain fel a ganlyn:
• Bydd y gweithredwr yn hysbysu'r comisiynydd traffig am fath a rhifau cofrestru cerbydau a ddefnyddir dan y drwydded honno, a bydd yn rhoi gwybod am unrhyw newidiadau – adran 20 (3) o Ddeddf Cerbydau Teithwyr Cyhoeddus 1981.
• Bydd y gweithredwr yn anfon y ddogfen V5 wreiddiol at y comisiynydd traffig, ac ni fydd yn defnyddio unrhyw gerbyd heb gael cymeradwyaeth ysgrifenedig ymlaen llaw gan y comisiynydd traffig.
• Bydd llyfr cofrestru V5 ar gyfer pob limwsîn hir sydd i'w ddefnyddio dan y drwydded, a rhaid i'r gweithredwr feddu ar ddogfen sy'n cadarnhau hyn a'i dangos pan ofynnir iddo wneud.
• Gwneir archwiliad diogelwch llawn o bob limwsîn hir (bob 10 wythnos ar y mwyaf) mewn mangre sy'n addas i'r cerbyd i sicrhau ei fod yn dal yn addas i'r ffordd fawr. Rhaid cadw cofnodion o bob archwiliad yn unol â'r *Guide to Maintaining Roadworthiness*.

• Ni fydd y limwsîn yn cludo mwy nag wyth o deithwyr ar unrhyw adeg.
• Bydd y gweithredwr yn cydymffurfio ar bob adeg berthnasol â’r ddeddfwriaeth ynghylch codi prisiau tocynnau ar wahân ac yn cadw tystiolaeth 12 mis o’r cydymffurfiad hwn ar gyfer pob taith.
• Bydd gyrwyr limwsîn hir yn cario tystiolaeth ddogfennol i ddangos bod prisiau tocynnau ar wahân wedi’u codi am y daith gyfredol.
• Bydd y gweithredwr yn cydymffurfio ag adrannau 2 a 6 o Ddeddf Trafnidiaeth 1985 mewn cysylltiad â chofrestru gwasanaethau lleol a rhaid iddo allu dangos cydymffurfiad â’r adrannau hyn i VOSA, ar ei gais. Bydd hyn yn cynnwys prawf o dalu prisiau tocynnau ar wahân ac un ai:

ATODIADAU

– prawf bod teithwyr wedi teithio mwy na 15 milltir. Rhoddir tystiolaeth o hyn fel arfer drwy ddangos codau post; neu
– brawf bod y gwasanaeth yn daith bleser neu'n wibdaith a'i fod y tu allan i'r diffiniad o wasanaeth lleol.
• Ni fydd y gweithredwr yn defnyddio cerbyd nad yw'n cyrraedd safonau ECWVTA neu ofynion Prydeinig ar gyfer adeiladwaith a defnydd.
• Ni fydd y gweithredwr yn defnyddio unrhyw gerbyd lle mae'r comisiynydd traffig yn ystyried bod y defnydd ohono'n golygu bod arfer anghyfreithlon fel llogi i'w yrru gan y llogwr neu gymryd arnoch weithredu dan awdurdod twyllodrus ac amherthnasol fel cyfeiriadau at atodlen 6 neu adran 6 (sydd fel arfer yn cyfeirio at ddarpariaethau ar adeiladwaith a defnydd i ganiatáu gyrru cerbyd at ddefnydd personol – yn hytrach nag am dâl neu wobr), mewn ymdrech i fynd o'r tu arall i'r gofynion am drwyddedu gweithredwyr.
• Os bydd y gweithredwr yn ceisio defnyddio'r esemptiad 'gwibdeithiau a theithiau pleser' o'r rheol 15 milltir, unwaith eto dylid cadw tystiolaeth o hyn a dylai fod ar gael yn rhwydd i VOSA. Gallai hyn fod ar y ffurflen archebu. Bydd terfynau'r esemptiad 'gwibdeithiau a theithiau pleser' wedi'u deall yn llawn hefyd gan y gweithredwr, er enghraifft, ni all fod ar gael am fwy na chwe wythnos.
• Ni fydd y gweithredwr neu yrrwr yn torri'r deddfau alcohol.

Sylwch

Mae awdurdodau lleol yn trwyddedu'r cyflenwi ar alcohol ac os yfir alcohol yn eich cerbydau, rhaid i'r awdurdod lleol perthnasol fod wedi'i fodloni bod hyn yn gyfreithlon neu, fel arall, bydd amheuaeth yn codi ynghylch yr enw da sydd i chi fel gweithredwr. Mae'n ofynnol cael trwydded alcohol i gyflenwi alcohol fel rhan o becyn i ddarparu gwasanaeth limwsîn neu bydd trosedd wedi'i gyflawni.

## Atodiad 2

### Trwyddedau cyfyngedig arbennig i weithredwyr cerbydau gwasanaeth cyhoeddus

Mae'r atodiad hwn ar gyfer rhai sy'n berchen ar dacsis trwyddedig ac, o wanwyn 2009 ymlaen, ar gerbydau llogi preifat sydd am ddefnyddio eu cerbydau i redeg gwasanaeth bws lleol.

Er mwyn gallu rhedeg gwasanaeth bws lleol rhaid ichi'n gyntaf gael trwydded gweithredwr cerbydau gwasanaeth cyhoeddus. Byddai hon fel arfer yn drwydded gyfyngedig neu safonol ond gall deiliaid tacsis trwyddedig neu geir llogi preifat wneud cais am drwydded gweithredwr cyfyngedig arbennig. Mae'r drwydded hon yn caniatáu defnyddio tacsis a cherbydau llogi preifat i ddarparu gwasanaethau bws lleol.

Mae'r ffurflen gais ar gael yn www. businesslink.gov.uk neu gan VOSA ac, ar ôl ei chwblhau, dylid ei hanfon, ynghyd â'r ffi berthnasol, i VOSA. Ni all neb wrthwynebu'ch cais a rhoddir y drwydded wedi i'r comisiynydd traffig gadarnhau eich bod yn dal o leiaf un drwydded tacsi neu gerbyd llogi cyhoeddus.

Bydd y drwydded yn cynnwys yr holl dacsis neu gerbydau llogi preifat yr ydych yn dal trwyddedau ar eu cyfer yn fythol-barhaus, ar yr amod eich bod yn talu'r ffi berthnasol i gadw'ch trwydded mewn grym. Er y byddai nifer y cerbydau sydd gennych yn gallu newid yn ystod y cyfnod hwn, ni fydd angen ichi newid eich

trwydded arbennig.

Rheolau
Rhaid ichi ymgymryd i weithredu gwasanaeth lleol, a rhaid ichi ei gofrestru gyda'r comisiynydd traffig cyn yr adeg yr ydych am iddo ddechrau. Os oes bwriad i'r gwasanaeth redeg yn Llundain, bydd angen ichi gael caniatâd gan Transport for London (TfL).

Rhaid i'r gwasanaeth fod ag o leiaf un man aros yn ardal y cyngor dosbarth a roddodd eich trwydded tacsi neu gerbyd llogi preifat. Gall mannau aros eraill fod mewn unrhyw ddosbarth arall.

27

Rhaid i bob cerbyd a ddefnyddiwch dan drwydded gyfyngedig arbennig fod yn dacsi trwyddedig neu'n gerbyd llogi preifat. Pan ddefnyddir y cerbyd ar wasanaeth lleol rhaid peidio â'i ddefnyddio i geisio ei hurio allan fel bod y defnydd ohono'n gyfyngedig, neu i godi teithwyr sy'n aros mewn safleoedd tacsis. Rhaid bod hysbysiad ar flaen y cerbyd ac arno'r gair 'Bws' mewn llythrennau sydd o leiaf 60mm o uchder sydd hefyd yn dangos y llwybr, pen y daith neu'r math o wasanaeth yr ydych yn ei redeg. Rhaid ichi hefyd arddangos tabl prisiau tocynnau yn y cerbyd fel y gall teithwyr wirio pris y tocyn am unrhyw daith, neu sut y cyfrifir y pris tocyn hwnnw.

Gellir defnyddio'r cerbyd i weithredu gwasanaethau tacsi neu gerbyd llogi preifat pan nad yw'n cael ei ddefnyddio i ddarparu gwasanaeth bws lleol.

Ar ôl cofrestru'r gwasanaeth, byddwch wedi'ch rhwymo i'w redeg ar yr amseroedd yr oeddech wedi nodi ac ar hyd y llwybr sydd wedi'i gofrestru.

Cyn cofrestru dylech ddarllen *Canllaw i Gofrestru Gwasanaethau Bws Lleol*, neu ar gyfer gwasanaethau bws hyblyg *A Guide to Flexible Local Bus Service Registrations*.

Gwasanaethau bws lleol (heblaw gwibdeithiau a theithiau pleser) yw'r unig fath o weithrediad cerbyd gwasanaeth cyhoeddus y gallwch ymgymryd ag ef. Ni allwch ddefnyddio unrhyw fath arall o wasanaeth cerbyd gwasanaeth cyhoeddus gan ddefnyddio'ch tacsis neu gerbydau llogi preifat (e.e. gwasanaeth cyflym a mannau aros sy'n fwy na 15 milltir oddi wrth ei gilydd).

Gofynion trwyddedu gyrwyr

Rhaid i'r gyrrwr fod yn yrrwr tacsi neu gerbyd llogi preifat trwyddedig a dylai fod wedi'i drwyddedu gan yr un cyngor dosbarth â'r cerbyd. Rhaid peidio â defnyddio gyrwyr oni bai eu bod hefyd yn dal y drwydded tacsi neu gerbyd llogi preifat briodol.

Trwyddedau gwasanaeth cyhoeddus eraill i weithredwyr cerbydau

Yn ogystal â dal trwydded arbennig cewch ymgeisio am drwydded gyfyngedig neu safonol. Bydd trwydded gyfyngedig yn caniatáu ichi redeg dau gerbyd a hyd at wyth o seddau teithwyr ynddynt fel cerbydau gwasanaeth cyhoeddus (ond nid fel tacsis neu gerbydau llogi preifat) yn ogystal â'ch tacsi(s). Ac os byddwch yn dal i gael y rhan fwyaf o'ch enillion o redeg tacsis neu gerbydau llogi preifat, ceir rhoi trwydded gyfyngedig i chi ar gyfer dau gerbyd gwasanaeth cyhoeddus ac ynddynt hyd at 16 o seddau teithwyr.

Os byddwch yn dymuno rhedeg cerbydau mwy neu fwy na dau gerbyd, yna bydd angen ichi ymgeisio am drwydded safonol.

Dylech ddarllen prif ran yr arweiniad hwn i gael mwy o wybodaeth.

ATODIADAU

# ATODIADAU
## Atodiad 3
### Cludiant di-elw
#### Cynlluniau caniatadau
Mae rhai gweithredwyr di-elw sy'n rhedeg cerbydau bach, bysiau mini ac, mewn rhai achosion, fysiau mwy yn rhydd oddi wrth ofynion trwyddedu cerbydau gwasanaeth cyhoeddus os defnyddiant eu cerbyd ar ôl cael caniatâd. Mae'r caniatadau hyn yn gadael i'r deiliad gludo teithwyr sy'n talu am docynnau mewn amgylchiadau eithaf cyfyngedig.

Dim ond amlinelliad o'r pwnc sydd yn yr atodiad hwn. Mae mwy o wybodaeth ar gael yn yr arweiniad PSV 385 *Passenger Transport Provided by Not-for-profit Groups*.

Mae dau gynllun caniatadau:
• caniatadau safonol a bws mawr: fe'u rhoddir o dan adran 19 o Ddeddf Trafnidiaeth 1985, fel y'i diwygiwyd;
• caniatadau bws cymunedol: rhoddir y rhain o dan adran 22 o Ddeddf Trafnidiaeth 1985, fel y'i diwygiwyd.

#### Caniatadau adran 19
Mae grwpiau di-elw sy'n ymwneud ag addysg, crefydd, lles cymdeithasol, hamdden (caniatadau safonol yn unig) neu weithgareddau eraill sydd o fudd i'r gymuned yn gallu cael caniatadau. Mae caniatâd safonol ar gyfer cerbyd sy'n gallu cludo hyd at 16 o deithwyr. Rhoddir y caniatadau hyn un ai gan gomisiynwyr traffig neu gan gyrff dynodedig (awdurdodau lleol, amryw o elusennau cenedlaethol neu gyrff eglwysig etc). Maent yn caniatáu i ddeiliad y caniatâd gludo aelodau o'r grŵp (e.e. Sgowtiaid) neu bobl y mae'r grŵp yn ceisio eu helpu (e.e. pobl anabl). Mae'r caniatâd yn rhoi manylion y rheini a gaiff ddefnyddio'r cerbyd ond rhaid iddo beidio ag enwi'r cyhoedd.

Mae grwpiau di-elw sy'n gweithredu fel 'cyrff mantell' i gyrff llai sy'n ymwneud ag addysg, crefydd, lles cymdeithasol neu weithgareddau eraill sydd o fudd i'r gymuned yn gallu cael caniatâd bws mawr ar gyfer cerbydau sydd â mwy nag 16 o seddau teithwyr. Dim ond gan y comisiynydd traffig y gallwch gael y rhain, a rhaid iddo fod wedi'i fodloni bod cyfleusterau neu drefniadau digonol gan y grŵp i gynnal a chadw'r cerbydau.

Nid yw caniatadau'n caniatáu defnyddio cerbyd gyda'r bwriad o wneud elw, neu ei ddefnyddio mewn cysylltiad â gweithgarwch sy'n gwneud elw. Mae caniatadau'n ddilys i'w defnyddio yn y DU yn unig.

#### Caniatadau bws cymunedol
Mae caniatadau bws cymunedol ar gyfer pwrpas gwahanol. Fe'u rhoddir i grwpiau sydd am redeg gwasanaeth bws lleol yn ddi-elw.

Yn wahanol i gerbydau caniatâd adran 19, gall bysiau cymunedol gludo'r cyhoedd, a'r prif ddefnydd iddynt yw rhoi gwasanaeth bws lleol (y mae'n rhaid ei gofrestru gyda'r comisiynydd traffig) i'r cyhoedd. Rhoddir caniatadau gan y comisiynydd traffig a all, yn ôl ei ddisgresiwn, ganiatáu i'r gweithredwr ddefnyddio'r cerbyd ar

gyfer gwasanaethau heblaw rhai lleol (e.e. llogi dan gontract) sy’n helpu i gynnal y gweithrediad lleol yn ariannol. Rhaid i weithredwyr bysiau cymunedol redeg eu gwasanaethau lleol yr un mor ddibynadwy â gweithredwyr proffesiynol. Rhaid i’r comisiynydd traffig fod wedi’i fodloni hefyd fod eu cyfleusterau neu drefniadau cynnal a chadw’n ddigonol. Gall y comisiynydd traffig ddiddymu’r caniatâd os na chedwir at y safonau.

O 6 Ebrill 2009, mae caniatadau a roddir o’r newydd yn gallu awdurdodi defnyddio unrhyw gerbyd (sy’n cydymffurfio â gofynion COIF os oes angen) sydd â mwy na naw o seddau teithwyr, ond caiff y comisiynydd traffig osod amod sy’n atal defnyddio cerbydau sydd â mwy nag 16 o seddau oni bai ei fod wedi’i fodloni bod cyfleusterau neu drefniadau cynnal a chadw priodol ar waith.

# Atodiad 4

## Rheolwyr trafnidiaeth

Rhaid i berson proffesiynol gymwys fod yn gyfrifol am redeg eich busnes. Gall y person hwn fod yn chi eich hun neu'n rheolwr trafnidiaeth yr ydych yn ei gyflogi (nid oes rhaid i'r person fod yn rhan o'ch staff amser llawn ond rhaid iddo fod â rheolaeth barhaus ac effeithiol dros y gweithrediadau trafnidiaeth a gallu dangos hynny). Caiff y busnes gyflogi mwy nag un rheolwr trafnidiaeth. Rhaid i'r person proffesiynol gymwys fod yn un sydd ag enw da iddo hefyd.

Gall rhywun fod yn broffesiynol gymwys ar gyfer gweithrediadau cenedlaethol yn unig, neu ar gyfer gweithrediadau cenedlaethol a rhyngwladol. Os oes cymhwysedd proffesiynol gan y rheolwr trafnidiaeth dros weithrediadau cenedlaethol yn unig, dylech ymgeisio am drwydded genedlaethol safonol. Os oes ganddo gymhwysedd proffesiynol dros weithrediadau cenedlaethol a rhyngwladol gallwch ymgeisio am drwydded ryngwladol safonol.

Gellir hawlio cymhwysedd proffesiynol mewn un o'r tair ffordd ganlynol.

1. Ar sail profiad fel gweithredwr cerbydau gwasanaeth cyhoeddus neu reolwr trafnidiaeth – ond dim ond os dechreuodd y profiad hwn cyn 1 Ionawr 1978 ac os cafwyd ef:

a) ar unrhyw adeg yn y cyfnod rhwng 1 Ionawr 1970 a 31 Rhagfyr 1974; neu
b) dros gyfnod neu gyfnodau sydd gyda'i gilydd yn dod i ddwy flynedd o leiaf rhwng 1 Ionawr 1975 a 31 Rhagfyr 1979.

2. Drwy lwyddo mewn arholiad am Dystysgrif Cymhwysedd Proffesiynol (CPC) ar gyfer gweithrediadau trafnidiaeth teithwyr ffyrdd cenedlaethol a/neu ryngwladol fel y bydd wedi'i osod gan Fwrdd Arholi OCR (Cymdeithas Frenhinol y Celfyddydau (RSA) cyn hynny). Gellir cael manylion dyddiadau'r arholiadau, y canolfannau profion ac astudio a manylion y meysydd llafur gan OCR Examinations Board, Westwood Way, Coventry CV4 8HS (ffôn: 02476 470033).

3. Drwy ddal cymwysterau proffesiynol penodol a roddir gan un o'r grwpiau canlynol:

Ar gyfer gweithrediadau cenedlaethol a rhyngwladol:

- Cymrawd (FCILT) neu Aelod Siartredig (CMILT) o Sefydliad Siartredig Logisteg a Thrafnidiaeth drwy arholi a/neu achredu ffurfiol mewn trafnidiaeth teithwyr ffyrdd, ar ôl dangos y dystysgrif eithrio a roddwyd gan y Sefydliad;
- Aelod neu Aelod Cyswllt o Sefydliad y Peirianwyr Trafnidiaeth Ffordd; neu
- ddeiliad Tystysgrif y Sefydliad Logisteg a Thrafnidiaeth mewn Logisteg a Thrafnidiaeth gyda chymeradwyaeth mewn trafnidiaeth teithwyr ffyrdd, ar ôl dangos y dystysgrif eithrio a roddwyd gan y Sefydliad.

Ar gyfer gweithrediadau cenedlaethol yn unig:

- deiliad Tystysgrif Cymdeithas Frenhinol y Celfyddydau mewn Trafnidiaeth Teithwyr Ffyrdd. Mae'r dystysgrif yn eich eithrio o'r gofyniad i gael y CPC os cafwyd hi ar ôl Mai 1984 yn unig.
- Aelod (MILT) o Sefydliad Siartredig Logisteg a Thrafnidiaeth drwy arholi a/neu achredu ffurfiol mewn trafnidiaeth teithwyr ffyrdd, ar ôl dangos y dystysgrif eithrio a

roddwyd gan y Sefydliad;
• Aelod Cyswllt o Sefydliad y Peirianwyr Trafnidiaeth Ffordd (drwy arholi); neu
• ddeiliad Tystysgrif y Sefydliad Logisteg a Thrafnidiaeth mewn Logisteg a Thrafnidiaeth gyda chymeradwyaeth mewn cydgysylltu trafnidiaeth teithwyr, ar ôl dangos y dystysgrif eithrio a roddwyd gan y Sefydliad.

ATODIADAU

ATODIADAU
Sylwch
O fis Mawrth 2007, nid yw tystysgrifau eithrio'r Sefydliad Gweinyddu Trafnidiaeth (IoTA) yn dderbyniol fel cymwysterau CPC/tystysgrifau eithrio ar gyfer rheolwyr trafnidiaeth sydd wedi'u henwebu. Ni dderbynnir unrhyw geisiadau newydd sy'n enwebu rheolwr trafnidiaeth sy'n cyflwyno tystysgrif IoTA i'w hystyried heb ddarparu tystiolaeth dderbyniol ychwanegol o gymhwysedd proffesiynol neu, fel arall, caiff ymgeisydd enwebu rheolwr trafnidiaeth yn ei le sy'n dal tystysgrif cymhwysedd proffesiynol neu dystysgrif eithrio dderbyniol. Mabwysiedir y dull gweithredu hwn nes bydd arholiadau cytunedig ar waith gan IoTA ar gyfer gweithrediadau cenedlaethol a rhyngwladol.

Nid oes effaith ar weithredwyr sydd ar hyn o bryd yn cyflogi rheolwr trafnidiaeth a ddefnyddiodd dystysgrifau IoTA fel tystiolaeth o eithrio cyn Mawrth 2007 oni bai fod y rheolwr trafnidiaeth hwnnw'n dymuno cael ei ychwanegu at dystysgrif newydd neu ychwanegol. Os bydd hyn yn digwydd, ystyrir y mater gan y comisiynydd traffig.

Atodiad 5
Euogfarnau perthnasol
Rheolau ar gyfer gweithredwyr cerbydau gwasanaeth cyhoeddus a'u staff
Mae'r atodiad hwn yn berthnasol i bawb sydd un ai'n dal trwydded gweithredwr cerbydau gwasanaeth cyhoeddus, neu sydd ar ganol ymgeisio am un, gan gynnwys personau sydd mewn partneriaeth a'r rheini sy'n gweithredu ar ran cwmni. Mae'n ceisio rhoi crynodeb o'r euogfarnau sy'n berthnasol, a pha bryd y dylid rhoi gwybod amdanynt.

Mae adran 19 o Ddeddf Cerbydau Teithwyr Cyhoeddus 1981 yn mynnu bod y rheini sy'n dal trwydded gweithredwr cerbydau gwasanaeth cyhoeddus yn rhoi gwybod am euogfarnau penodol a gawsant hwy eu hunain a'r rheini sy'n gweithio iddynt i'r comisiynydd trafnidiaeth. Mae'n gosod gofyniad tebyg ar y rheini sy'n ymgeisio am drwydded gweithredwr cerbydau gwasanaeth cyhoeddus. Gelwir euogfarnau y mae'n rhaid rhoi gwybod amdanynt yn euogfarnau perthnasol.

Wrth asesu a yw gweithredwr neu ymgeisydd yn cwrdd â'r gofyniad i fod ag 'enw da' iddo, rhaid i'r comisiynydd traffig ystyried unrhyw dystiolaeth berthnasol; ac yn benodol rhaid iddo ystyried euogfarnau perthnasol. Bydd y pwys y mae'r comisiynydd traffig yn ei roi ar bob euogfarn yn dibynnu ar ddifrifoldeb y trosedd, a'r graddau y mae'n adlewyrchu ar addasrwydd y gweithredwr (neu ymgeisydd) i reoli busnes trafnidiaeth teithwyr.

Euogfarnau
Mae'r euogfarnau'n perthyn i ddau gategori cyffredinol:
1. Euogfarnau am droseddau difrifol
Lle y rhoddwyd dedfryd o garchar am gyfnod o fwy na thri mis, dirwy sy'n uwch na lefel 4 ar y raddfa safonol neu orchymyn gwasanaeth cymunedol am fwy na 60 o oriau.

2. Euogfarnau am droseddau sy'n ymwneud â defnyddio cerbydau gwasanaeth cyhoeddus a'r gofynion trwyddedu ar gyfer y rhai sy'n eu gweithredu a'u gyrru
Mae'r troseddau'n cynnwys y canlynol ond heb fod yn gyfyngedig iddynt:
• troseddau trwyddedu gweithredwyr cerbydau gwasanaeth cyhoeddus;
• mynd yn groes i ofynion ynghylch addasrwydd cerbydau/tollau/yswiriant;
• troseddau gyrru a thraffig;
• troseddau sy'n ymwneud ag oriau a chofnodion gyrwyr;
• troseddau sy'n ymwneud â grantiau gweithredwyr gwasanaethau bws.

Euogfarnau sydd wedi darfod
I'r diben hwn, mae euogfarnau sydd wedi darfod yn cynnwys dyfarniadau o euogrwydd. Hyd yn oed os cafwyd euogfarn, ni ddylid rhoi gwybod amdani os yw wedi dod yn euogfarn sydd wedi darfod yn unol ag ystyr Deddf Adsefydlu Troseddwyr 1974. Fel man cychwyn, mae euogfarn sy'n arwain at ddirwy yn darfod ar ôl pum mlynedd oni bai, mewn amgylchiadau penodol, fod y troseddwr yn cael euogfarn am drosedd pellach yn ystod y cyfnod hwnnw. Er enghraifft, os gosodwyd dirwyon arnoch bob pedair blynedd am 20 mlynedd, bydd yr holl euogfarnau'n gyfredol. Os nad ydych yn sicr, dylech ddatgelu euogfarn. Wedyn bydd y comisiynydd traffig yn ystyried pob achos yn ôl ei rinweddau.

Mae rheolau gwahanol ar gyfer troseddwyr sydd o dan 17 oed ar adeg yr euogfarn (eu cael yn euog).

Euogfarnau mewn gwledydd tramor
Os yw euogfarn wedi'i rhoi gan lys y tu allan i Brydain Fawr (gan gynnwys llys yng Ngogledd Iwerddon) bydd yn berthnasol, a dylid rhoi gwybod amdani.

Ym mha amgylchiadau y mae'n rhaid rhoi gwybod am euogfarnau perthnasol?
Pan fyddwch yn ymgeisio am drwydded gweithredwr cerbydau gwasanaeth cyhoeddus, gofynnir ichi restru'r holl euogfarnau perthnasol dros y pum mlynedd diwethaf (heb gynnwys euogfarnau sydd wedi darfod):
• yn eich erbyn chi (neu unrhyw gwmni yr ydych yn ymgeisio ar ei ran);
• yn erbyn y person yr ydych yn bwriadu ei gyflogi fel eich rheolwr trafnidiaeth;
• yn erbyn unrhyw un sy'n gyflogai neu'n asiant i chi.

Rhaid rhoi'r manylion hyn ar eich ffurflen gais.

Os rhoddir euogfarn berthnasol yn ystod y cyfnod pan ystyrir eich cais yn erbyn unrhyw un o'r personau hyn, rhaid ichi roi gwybod amdani ar unwaith i'r comisiynydd traffig yr ydych wedi ymgeisio iddo.

Os ydych yn dal trwydded gweithredwr cerbydau gwasanaeth cyhoeddus, rhaid ichi barhau i roi gwybod am euogfarnau perthnasol drwy gydol cyfnod y drwydded fel a ganlyn:
• rhai yn eich erbyn chi (neu unrhyw gwmni sy'n dal y drwydded) cyn pen 28 o ddiwrnodau ar ôl yr euogfarn;
• rhai yn erbyn y rheolwr trafnidiaeth, os ydynt yn ymwneud â throseddau a gyflawnwyd yng nghwrs eich busnes cerbydau gwasanaeth cyhoeddus, cyn pen 28 o ddiwrnodau ar ôl yr euogfarn;

- rhai yn erbyn unrhyw swyddog arall, cyflogai neu asiant, os ydynt yn ymwneud â throseddau a gyflawnwyd yng nghwrs eich busnes cerbydau gwasanaeth cyhoeddus, cyn pen 28 o ddiwrnodau wedi ichi gael gwybod amdanynt.

Os cawsoch chi unrhyw euogfarnau perthnasol, rhaid ichi roi gwybod amdanynt hyd yn oed os cafwyd hwy yng nghwrs busnes heblaw'r un yr ydych yn dal neu'n ceisio trwydded ar ei gyfer. Yn achos eich rheolwr trafnidiaeth arfaethedig, dylech roi gwybod, wrth wneud cais os gofynnir ichi, am yr holl euogfarnau perthnasol, gan gynnwys y rheini a gafwyd y tu allan i'ch busnes eich hun. Wedi hynny, nid oes ond rhaid ichi roi gwybod am y rhai a gafodd y rheolwr trafnidiaeth yn eich busnes fel gweithredwr trafnidiaeth teithwyr ffyrdd.

ATODIADAU

Nid yw'n ofynnol ichi roi gwybod am euogfarnau a gafodd eich cyflogeion eraill y tu allan i'ch busnes trafnidiaeth teithwyr (e.e. mewn swyddi blaenorol, neu mewn unrhyw fusnes gwahanol). Ond dylech gofio y byddai unrhyw gamymddwyn gan weithredwr neu gyflogai yn gallu peryglu enw da y gweithredwr, hyd yn oed os nad yw'n gyfystyr ag euogfarn berthnasol.

Sylwch
Mae gofyniad ar wahân hefyd i roi gwybod am euogfarnau wrth wneud cais am drwydded gyrrwr cerbyd sy'n cludo teithwyr.

Partneriaethau a chwmnïau cyfyngedig neu gwmni cyfyngedig
Pan fydd personau sydd mewn partneriaeth yn dal neu'n ymgeisio am drwydded gweithredwr cerbydau gwasanaeth cyhoeddus, rhaid i bob un o'r partneriaid a chyfarwyddwyr fodloni'r gofyniad i fod ag 'enw da' iddynt, felly rhaid rhoi gwybod am euogfarnau perthnasol pob person fel pe bai'n weithredwr.

Atodiad 6

Trefniadau cynnal a chadw

Mae VOSA yn rhoi pwys mawr ar waith cynnal a chadw priodol, ac mae wedi cynhyrchu arweiniad o'r enw *Guide to Maintaining Roadworthiness: Commercial Goods and Passenger Carrying Vehicles* ar y cyd â'r Cydffederasiwn Cludiant Teithwyr, y Sefydliad Trafnidiaeth Cludo Nwyddau a'r Gymdeithas Cludo Nwyddau ar y Ffyrdd.

Gellir lawrlwytho'r arweiniad o'r wefan yn www.businesslink.gov.uk

Mae crynodeb o'r arweiniad wedi'i atgynhyrchu isod.

Crynodeb o'r *Guide to Maintaining Roadworthiness: Commercial Goods and Passenger Carrying Vehicles*

1. Rhaid i berson cyfrifol wneud gwiriad bob dydd drwy gerdded o gwmpas y cerbyd cyn ei ddefnyddio.
2. Mae archwiliadau defnydd cyntaf yn hollbwysig i weithredwyr sy'n cymryd cerbydau, gan gynnwys ôl-gerbydau, ar les, ar log neu ar fenthyg gan bobl eraill. Mae'n hollbwysig cynnal archwiliadau pryd bynnag y bydd cerbydau ac ôl-gerbydau wedi bod oddi ar y ffordd am gyfnod sylweddol.
3. Rhaid i yrwyr allu rhoi gwybod yn ddi-oed am unrhyw ddiffygion neu arwyddion o ddiffygion a allai amharu ar weithrediad diogel cerbydau. Rhaid i adroddiadau fod yn ysgrifenedig a dylid darparu ar gyfer cofnodi manylion unrhyw waith cywiro a wneir.
4. Rhaid cadw adroddiadau am feiau gan yrwyr sy'n cofnodi unrhyw ddiffygion am o leiaf 15 mis.
5. Rhaid i weithredwyr sicrhau bod eitemau sy'n effeithio ar addasrwydd i'r ffordd fawr yn cael eu gwirio'n rheolaidd.
6. Rhaid i archwiliadau diogelwch gynnwys yr eitemau hynny sy'n dod dan brawf blynyddol priodol yr Adran Drafnidiaeth.
7. Dylid cynllunio archwiliadau diogelwch ymlaen llaw os oes modd gan ddilyn rhaglen sy'n seiliedig ar amserlen.
8. Rhaid monitro'r system archwiliadau diogelwch yn rheolaidd yn enwedig yn y cyfnod cynnar.
9. Rhaid gwneud cofnod ysgrifenedig o unrhyw waith cywiro a wneir sy'n codi o archwiliadau diogelwch.
10. Rhaid i adroddiad yr archwiliad diogelwch gynnwys:
   - manylion y cerbyd;
   - rhestr o'r holl eitemau sydd i'w harchwilio;
   - pa bryd y cyflawnir yr archwiliadau a chan bwy;
   - canlyniad yr archwiliad;
   - manylion unrhyw waith cywiro;
   - datganiad bod diffygion wedi'u cywiro'n foddhaol.
11. Ar rai mathau o gerbydau a gweithrediadau, gallai fod yn angenrheidiol gwneud archwiliadau diogelwch canolradd.
12. Rhaid cadw cofnodion o archwiliadau diogelwch am 15 mis o leiaf.
13. Rhaid i staff sy'n gwneud archwiliadau diogelwch fod yn gymwys i asesu arwyddocâd diffygion. Rhaid i gymorth fod ar gael i weithio offer rheoli'r cerbyd yn ôl yr angen.
14. Rhaid cael system i sicrhau bod cerbydau sy'n anaddas i'r ffordd fawr yn cael eu cymryd allan o wasanaeth.

ATODIADAU

15. Rhaid i weithredwyr sy'n gwneud eu harchwiliadau diogelwch eu hunain fod â chyfleusterau ac offer digonol ar gael iddynt. Rhaid iddynt fod yn briodol i faint y fflyd a'r math o gerbydau sy'n cael eu rhedeg.
16. Dylai gweithredwyr fod â mynediad at ddull o fesur effeithlonrwydd breciau, gosod aneliad prif oleuadau a mesur yr allyriadau o bibellau gwacáu.
17. Mae gweithredwr yn gyfrifol am gyflwr cerbydau a gaiff eu harchwilio a/neu eu cynnal a'u cadw gan ei asiantau, contractwyr neu gwmnïau llogi (mae hyn yn cynnwys ôl-gerbydau).
18. Os yw gweithredwyr yn gosod eu harchwiliadau diogelwch i'w gwneud dan gontract, rhaid iddynt lunio, a chael cymeradwyaeth ar gyfer, gontract ysgrifenedig ffurfiol ag asiantaeth archwilio neu fodurdy. Rhaid i weithredwyr o'r fath fod â dull o fonitro'n rheolaidd ansawdd y gwaith a wneir iddynt.
19. Rhaid blaengynllunio'r dyddiadau pan yw archwiliadau diogelwch i gael eu gwneud.
20. Dylid defnyddio amserlen neu siart wal cynnal a chadw i nodi dyddiadau pan yw archwiliadau diogelwch i'w gwneud o leiaf chwe mis ymlaen llaw.
21. Rhaid monitro'n effeithiol ac yn barhaus unrhyw system i gynnal addasrwydd i'r ffordd fawr.
22. Rhaid hysbysu VOSA yn ddi-oed am unrhyw newid a wnaiff gweithredwyr trwyddedig mewn trefniadau ar gyfer archwiliadau diogelwch.
23. Rhaid rhoi cyfarwyddiadau ysgrifenedig clir i yrwyr am eu cyfrifoldebau.

Atodiad 7
Gweithdrefnau a systemau monitro
Mae'r tabl isod yn rhoi crynodeb o'r cyngor ar yr arferion gorau ar gyfer y gweithdrefnau a'r systemau i'w rhoi ar waith er mwyn cydymffurfio â'r gyfraith.

Fel gweithredwr, eich cyfrifoldeb chi yw rhoi trefniadau priodol ar waith i sicrhau, lle bo'n berthnasol, fod pob cerbyd a gyrrwr yn cydymffurfio â'r holl eitemau sydd wedi'u rhestru isod.

Rydym yn argymell cael gweithdrefn mewn cysylltiad â phob eitem yn y rhestr i wirio safon y cydymffurfio a system i gymryd camau ar unwaith ynghylch unrhyw ddiffyg cydymffurfio.

Mae'n bwysig cael system i gymryd camau ar unwaith fel y gellir cywiro'r sefyllfa, cyflwyno gweithdrefnau ar gyfer hyfforddi, a chyflwyno mesurau rheoli er mwyn atal diffygion o ran cydymffurfio rhag codi eto. Rhaid ichi sicrhau bod cerbydau'n cael eu gweithredu mor ddiogel ag sy'n bosibl. Nid oes fawr o ddiben mewn gweithredu system monitro dda os yw diffygion ac ymddygiad gwael (ar raddfa fach neu ddifrifol) yn cael eu gweld a'u cydnabod ond yn cael eu gadael fel yr oeddent.

Dylai pob system monitro sicrhau eich bod chi neu'r rheolwr cyfrifol yn ymwybodol o'r holl ddyddiadau critigol ar gyfer gwiriadau gorfodol a gwiriadau diogelwch ar gerbydau a chydrannau.1

Eitemau i'w monitro

Camau gweithredu neu wybodaeth sydd ar gael

Tacograffau
Pryd y cawsant eu gosod a phryd y cawsant eu calibro ddiwethaf, gwirio am gamweithredu neu waith atgyweirio angenrheidiol.

Cyfyngwyr cyflymder
Pryd y cawsant eu gosod neu eu hatgyweirio, gwirio am gamweithredu.

Cadw cofnodion
Rhoddi, dychwelyd, gwirio/dadansoddi, storio/ffeilio siartiau tacograff neu lyfrau cofnodion ysgrifenedig a/neu restrau ac amserlenni dyletswydd. Lawrlwytho, storio a dadansoddi data digidol o gardiau call gyrwyr a thacograffau digidol. Sicrhau bod niferoedd digonol o gardiau cwmni ar gael i reoli a lawrlwytho data sydd ar dacograffau digidol.

Gyrwyr
Gwirio trwydded yrru, Tystysgrif Cymhwysedd Proffesiynol y Gyrrwr, cardiau call y gyrwyr, hyfforddiant, amserlennu dyletswyddau a rotâu, oriau gwaith, cadw cofnodion a mesurau rheoli mewn cysylltiad â diffyg cydymffurfio.

COIF, Profion
Gwirio dyddiadau a manylion profion MOT, cywirdeb y wybodaeth am gymeradwyo cerbydau a storio tystysgrifau cyfredol.

Yswiriant
Gwirio cwmpas a pherthnasedd yr yswiriant, a gwirio'r dyddiadau dod i ben ar gyfer pob cerbyd.

Treth cerbydau
Gwirio bod y doll gywir wedi'i thalu a bod y Drwydded Treth Cerbyd wedi'i harddangos yn glir ar bob cerbyd. Gwirio Tystysgrifau Llygredd Is.

Cludo teithwyr
Gwirio eich bod yn cydymffurfio â therfynau pwysau cerbydau. Sicrhau bod manyleb cerbydau'n bodloni anghenion diogelwch teithwyr yn ddiogel (e.e. Deddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd neu ofynion eraill).

Trwyddedu gweithredwyr (awdurdodi a disgiau)
Diweddaru awdurdodiadau a manylebau cerbydau cyfredol. Monitro disgiau trwydded cerbydau gwasanaeth cyhoeddus ar gerbydau sydd mewn gwasanaeth neu'n cael eu defnyddio i gludo teithwyr. Gwirio bod yr holl weithredwyr ar is-gontract yn dal trwydded gweithredwr.

Cyflwr cerbydau a chofnodion cynnal a chadw
Dylid cadw cofnodion cyflawn o archwiliadau cynnal diogelwch ac atgyweiriadau i ddangos bod y cerbydau wedi'u cadw mewn cyflwr sy'n addas i'r ffordd fawr. Mae hyn yr un mor bwysig pan yw'r gwaith cynnal a chadw wedi'i osod ar gontract.

1 Gellir addasu'r siart amserlen sydd yn *Guide to Maintaining Roadworthiness* VOSA i'r diben hwn.
ATODIADAU

# ATODIADAU

## Atodiad 8

### Rhedeg gwasanaethau bws lleol

Mae gwasanaeth lleol yn un lle y caiff teithwyr eu cludo am brisiau tocynnau ar wahân dros bellteroedd byr. Gall y llwybr fod o unrhyw hyd, ar yr amod bod teithwyr drwy gydol hyd y llwybr yn gallu dod oddi ar y cerbyd o fewn 15 milltir (24.15 km) (wedi'i fesur ar hyd llinell syth) i'r man y cawsant eu codi.

### Prisiau tocynnau ar wahân

Ceir pris tocyn ar wahân pan fydd pob teithiwr yn gwneud taliad ar wahân i'r gyrrwr, tocynnwr neu asiant i ddefnyddio'r gwasanaeth. Caiff y teithwyr dalu wrth iddynt ddod ar y bws, neu cânt brynu tocynnau ymlaen llaw, prynu tocynnau tymor neu ddefnyddio tocynnau consesiwn. Gellir talu hefyd drwy ryw ddull anuniongyrchol, e.e. tocyn cyngerdd sy'n cynnwys teithio.

### Cofrestriadau

Mae cofrestriad yn hysbysiad o'r gwasanaeth bws lleol yr ydych yn dymuno ei weithredu. Er mwyn cofrestru gwasanaeth y tu allan i Lundain, rhaid ichi roi i'r comisiynydd traffig ddisgrifiad llawn o'r gwasanaeth y byddwch yn ei redeg. Gall y grwpiau canlynol gofrestru gwasanaethau bws lleol:

- unrhyw un sy'n dal trwydded gweithredwr cerbydau gwasanaeth cyhoeddus ddilys (ar yr amod nad oes cyfyngiadau arni);
- gall deiliaid caniatadau bws cymunedol gofrestru gwasanaeth bws cymunedol;
- gall awdurdodau addysg lleol gofrestru gwasanaeth bws ysgol a ddarperir gan eu cerbydau eu hunain;
- gweithredwyr tacsis trwyddedig neu gerbydau llogi preifat sy'n dal trwydded gweithredwr cerbydau gwasanaeth cyhoeddus gyfyngedig arbennig.

Mae mwy o wybodaeth ar gael am gymhwyster a sut i gofrestru gwasanaethau bws yn yr arweiniad PSV 353A o'r enw *Canllaw i Gofrestru Gwasanaethau Bws Lleol* ar gyfer Cymru a Lloegr a PSV 353A (Scotland) ar gyfer yr Alban. Cysylltwch â VOSA i gael mwy o wybodaeth.

### Safonau ar gyfer gwasanaethau bws lleol

Dylai fod yn brif nod gan weithredwyr redeg eu gwasanaethau cofrestredig yn ôl yr amseroedd y maent wedi'u cyhoeddi. Y comisiynwyr traffig yw'r rheoleiddwyr gwasanaethau bws lleol yn eu hardaloedd ac mae ganddynt bŵer i gymryd camau yn erbyn gweithredwyr sy'n methu â rhedeg eu gwasanaethau yn unol â'r manylion sydd wedi'u cofrestru.

Gall y pwerau hyn gynnwys gosod cosbau ariannol, dileu cofrestriadau presennol neu atal gweithredwyr rhag cofrestru gwasanaethau newydd. Gan y byddai'r canlyniad i gamau o'r math hwn yn gallu effeithio'n sylweddol ar eu busnes, cynghorir gweithredwyr i sicrhau bod yr un pwys yn cael ei roi ar ddibynadwyedd gwasanaethau ag ar agweddau eraill ar eu gweithrediad. Dylai gweithredwyr archwilio eu perfformiad eu hunain yn ôl amserlenni a dylid rhoi adroddiadau am faterion sy'n ymwneud â dibynadwyedd gwasanaethau yng nghyfarfodydd y bwrdd.

Mae comisiynwyr traffig wedi gosod targed sy'n golygu y dylai 95% o wasanaethau

adael mannau amseru sydd wedi'u nodi o fewn cyfnod sydd rhwng hyd at un funud yn gynnar a hyd at bum munud yn hwyr. Mae comisiynwyr traffig yn disgwyl i 95% o wasanaethau gyrraedd pen y daith ddim mwy na phum munud yn hwyr.

Er eu bod yn derbyn y bydd anawsterau tymor byr a allai achosi oedi, mae comisiynwyr traffig yn credu bod rhaid i weithredwyr lunio eu hamserlenni gan ystyried adegau prysur pan wyddant y bydd tagfeydd a ffactorau eraill.

Bydd cyfle bob amser i weithredwr ddarbwyllo comisiynydd traffig bod 'esgus rhesymol' dros fethu â rhedeg bws yn ôl ei amserlen gofrestredig ond bydd y comisiynydd traffig yn ymddiddori'n neilltuol mewn patrymau cadw amser ac a yw'r gweithredwr wedi cymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod bysiau'n rhedeg yn ôl eu hamseroedd cyhoeddedig.

Atodiad 9
Archwilwyr VOSA (awdurdodi a phwerau)
1. Bydd yr Ysgrifennydd Gwladol dros Drafnidiaeth yn rhoi gwarantau i'r canlynol:
• Archwilwyr Traffig (TEs) sy'n canolbwyntio gan mwyaf ar ddogfennaeth gyrwyr fel siartiau tacograff, trwyddedau gyrwyr a gweithredwyr a dogfennau eraill ar gyfer cerbydau fel rhai ar gyfer platiau a phrofion neu dystysgrifau yswiriant;
• Archwilwyr Cerbydau (VEs) sy'n canolbwyntio'n bennaf ar gyflwr cerbydau, systemau archwilio a chofnodion cynnal a chadw.
2. Mae'r warant yn awdurdodi Archwilydd i wneud y canlynol:
• archwilio unrhyw gerbyd sy'n cludo nwyddau neu bobl ac, i'r diben hwnnw, gadw'r cerbyd gyhyd ag y bydd angen i gynnal yr archwiliad. Caiff Archwilydd roi hysbysiad gwahardd ar gerbyd diffygiol a fydd yn unol â'r Dull Categoreiddio Diffygion sydd wedi'i gyhoeddi gan VOSA;
• gwahardd cerbyd os yw'r gyrrwr wedi torri'r rheoliadau ar oriau gyrwyr neu gadw cofnodion;
• gofyn i'r gyrrwr ddargyfeirio hyd at bum milltir a chyfeirio'r cerbyd i fan addas ar gyfer archwilio neu bwyso;
• mewn rhai amgylchiadau (h.y. pan ddefnyddir cerbyd gan weithredwr y mae'n hysbys ei fod heb drwydded), atafaelu a phowndio'r cerbyd a'i lwyth;
• ar unrhyw adeg sy'n rhesymol o ystyried yr amgylchiadau, mynd i mewn i unrhyw fangre y mae gan yr Archwilydd le i gredu bod cerbyd nwyddau neu gerbyd gwasanaeth cyhoeddus yn cael ei gadw ynddi ac archwilio'r cerbyd hwnnw;
• ymchwilio i system archwilio a chynnal a chadw gweithredwr cerbydau, gan gynnwys y cyfleusterau peirianyddol a chofnodion cynnal a chadw cerbydau;
• archwilio siartiau tacograff, cofnodion gyrwyr fel trwyddedau gyrrwr a dogfennau sy'n ymwneud ag oriau gwaith gyrwyr (e.e. cofnodion taliadau), a mynd â'r eitemau hynny ymaith os oes amheuaeth bod trosedd wedi'i gyflawni;
• cychwyn achosion i erlyn ar ran VOSA a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Drafnidiaeth mewn llys ynadon;
• rhoi cynnig o gosb benodedig i yrwyr am droseddau penodol.
ATODIADAU

## Atodiad 10

### Deddfwriaeth a gwybodaeth ddefnyddiol arall

Dylid darllen y Deddfau hyn (a'r rheoliadau sy'n cyfateb iddynt) mewn cysylltiad â'i gilydd. Deddf 1981 yw'r ddeddfwriaeth sylfaenol ar gyfer trwyddedu gweithredwyr cerbydau gwasanaeth cyhoeddus, ond mae wedi'i diwygio gan nifer o adrannau mewn Deddfau a wnaethpwyd wedyn:

- Deddf Cerbydau Teithwyr Cyhoeddus 1981
- Deddf Trafnidiaeth 1985
- Deddf Trafnidiaeth 2000
- Deddf Trafnidiaeth (Yr Alban) 2001
- Deddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 1995
- Deddf Dadreoleiddio a Chontractio Allan 1994
- Deddf Trafnidiaeth Leol 2008.

Gellir gweld y ddeddfwriaeth berthnasol yn www.opsi.gov.uk

### Arweiniadau a thaflenni

Gallwch gael y canlynol gan VOSA:

- *The Safe Operator's Guide*
- *Guide to Maintaining Roadworthiness*
- *Drivers' Hours Rules for Road Passenger Vehicles*
- *Canllaw i Gofrestru Gwasanaethau Bws Lleol* – PSV 353A
- *A Guide to Flexible Local Bus Service Registrations*.

### Ffurflenni trwyddedu gweithredwyr cerbydau gwasanaeth cyhoeddus

PSV 356: Cais am drwydded gweithredwr cerbydau gwasanaeth cyhoeddus gyfyngedig arbennig (ffi'n daladwy gyda'r cais).

PSV 421: Ffurflen gais am drwydded gweithredwr safonol neu gyfyngedig (ffi'n daladwy gyda'r cais).

PSV 421A: Ffurflen atodol i restru cerbydau sydd i'w defnyddio dan y drwydded.

PSV 421F: Ffurflen atodol yn gofyn am wybodaeth ariannol i ategu cais am drwydded.

PSV 430: Ffurflen i roi gwybod am newid mewn rhifau cofrestru cerbydau.

PSV 431: Cais am amrywiadau y gellir codi tâl amdanynt mewn trwydded gweithredwr cerbydau gwasanaeth cyhoeddus.

PSV 431A: Cais am amrywiadau na ellir codi tâl amdanynt mewn trwydded gweithredwr cerbydau gwasanaeth cyhoeddus.

Atodiad 11
Cysylltiadau defnyddiol

Dylid cyfeirio pob gohebiaeth ynghylch trwyddedu gweithredwyr a chaniatadau i'r Uned Drwyddedu Ganolog yn Central Licensing Unit, Hillcrest House, 386 Harehills Lane, Leeds LS9 6NF

Ffôn: 0300 123 9000
Self.Service@vosa.gov.uk

Mae'r tabl isod yn dangos dalgylch y gwahanol ardaloedd traffig a chyfeiriadau Swyddfa leol y Comisiynydd Traffig. Dim ond gohebiaeth sy'n ymwneud ag ymholiadau gan y cyhoedd y dylid ei hanfon i Swyddfa leol y Comisiynydd Traffig.

Ardal draffig
Gogledd-ddwyrain Lloegr
Gogledd-orllewin Lloegr
Dwyrain Lloegr

Yn gyfrifol am
Y Bwrdeistrefi Metropolitanaidd o fewn De Swydd Efrog, Tyne a Wear a Gorllewin Swydd Efrog. Swyddi Durham, Northumberland, Nottingham a Gogledd Swydd Efrog. Dosbarthau Darlington, East Riding of Yorkshire, Hartlepool, Kingston upon Hull, Middlesbrough, Gogledd Swydd Lincoln, Gogledd-ddwyrain Swydd Lincoln, Nottingham, Redcar a Cleveland, Stockton-on-Tees a Chaerefrog

Y Bwrdeistrefi Metropolitanaidd o fewn Manceinion Fwyaf a Glannau Mersi. Swyddi Caer, Cumbria, Derby a Chaerhirfryn. Dosbarthau Blackburn gyda Darwen, Blackpool, Dinas Derby, Halton a Warrington

Swyddi Bedford, Buckingham, Caergrawnt, Hertford, Essex, Caerlŷr, Lincoln (heblaw Dosbarthau Gogledd Swydd Lincoln a Gogledd-ddwyrain Swydd Lincoln), Norfolk, Northampton a Suffolk. Dosbarthau Caerlŷr, Luton, Milton Keynes, Peterborough, Rutland, Southend-on-Sea a Thurrock

Swyddfa'r Comisiynydd Traffig
Hillcrest House
386 Harehills Lane
Leeds LS9 6NF

Suites 4–6
Stone Cross Place
Stone Cross Lane North
Golborne
Warrington WA3 2SH

City House
126–130 Hills Road
Caergrawnt CB2 1NP

ATODIADAU
Ardal draffig
Gorllewin Canolbarth Lloegr
Cymru
Gorllewin Lloegr
De-ddwyrain Lloegr a Metropolitan
Yr Alban
Yn gyfrifol am
Y Bwrdeistrefi Metropolitanaidd o fewn Gorllewin Canolbarth Lloegr. Swyddi Amwythig, Stafford, Warwick a Chaerwrangon. Dosbarthau Swydd Henffordd, Stoke-on-Trent a Telford a Wrekin

Cymru

Swyddi Cernyw, Dyfnaint, Dorset, Caerloyw, Hampshire, Rhydychen, Gwlad yr Haf a Wiltshire. Dosbarthau Caerfaddon a Gogledd-ddwyrain Gwlad yr Haf, Bournemouth, Bracknell Forest, Bryste, Ynys Wyth, Gogledd Gwlad yr Haf, Plymouth, Poole, Portsmouth, Reading, Slough, Southampton, De Swydd Gaerloyw, Swindon, Torbay, Gorllewin Berkshire, Windsor a Maidenhead a Wokingham

Swyddi Caint, Surrey, Dwyrain Sussex a Gorllewin Sussex. Dosbarthau Brighton a Hove, Trefi Medway

Yr Alban

Swyddfa'r Comisiynydd Traffig
38 George Road
Edgbaston
Birmingham B15 1PL

38 George Road
Edgbaston
Birmingham B15 1PL

2 Rivergate
Temple Quay
Bryste BS1 6EH

Ivy House
3 Ivy Terrace
Eastbourne BN21 4QT

Level 6
The Stamp Office
Waterloo Place
Caeredin EH1 3EG

Manylion cysylltu defnyddiol eraill

VOSA
Berkeley House
Croydon Street
Bryste BS5 0DA
Ffôn: 0300 123 9000
www.businesslink.gov.uk
Self.Service@vosa.gov.uk

Y Tribiwnlys Trafnidiaeth
11th Floor
Cardinal Tower
12 Farringdon Road
Llundain EC1M 3HS
Ffôn: 020 7549 4620
Ffacs: 020 7549 4866

Cydffederasiwn Cludiant Teithwyr
3rd Floor
Drury House
34–43 Russell Street
Llundain WC2B 5HA
Ffôn: 020 7240 3131
Ffacs: 020 7240 6565

Grant Gweithredwr Gwasanaeth Bws
(BSOG)
F14 Ashdown House
Sedlescombe Road North
St Leonards-on-Sea
East Sussex TW37 7GA
Ffôn: 020 7944 8588
FDR@dft.gsi.gov.uk

Sefydliad Trafnidiaeth Cludo Nwyddau
St John's Road
Tunbridge Wells
Caint TN4 9UZ
Ffôn: 01892 526171
Ffacs: 01892 534989
ATODIADAU

8 o seddau teithwyr *gweler* wyth o seddau teithwyr
9+ o seddau teithwyr *gweler* naw+ o seddau teithwyr

addasrwydd i'r ffordd fawr *gweler* cynnal a chadw cerbydau
angen am drwydded 5–9
  diffiniadau 5–7
  mathau o drwydded 7–9
ailymgeisio, proses ymgeisio 22
apelio yn erbyn penderfyniadau 14, 22
Archwilwyr Cerbydau (VE), awdurdodi a phwerau 37
Archwilwyr Traffig (TE), awdurdodi a phwerau 37
Archwilwyr VOSA (awdurdodi a phwerau) 37
arddangos disgiau 16
arweiniadau am ddim 4, 38

bysiau mini 5
bysiau ysgol 6

cadw'ch trwydded 15–23
  cael eich trwydded 15–16
  llogi cerbydau oddi wrth weithredwyr eraill 18–19
  mathau o wasanaeth 16–18
  mwy o wybodaeth 23
  newidiadau yn eich trwydded 19–21
cael eich trwydded 15
camau gan gomisiynwyr traffig 21–2
  gwrthod ceisiadau 14, 21–2
camgymeriadau *gweler* toriadau
caniatadau bws cymunedol, cludiant di-elw 28
canolfannau gweithredu lluosog 9
cerbydau gwasanaeth cyhoeddus (PSVs)
  bysiau mini 5
  cerbydau llai 5–6
  cerbydau mwy 5
  diffinio 5–6
cerbydau llai 5–6
cerbydau llogi preifat (PHVs) 6, 7, 16–17
  limwsinau hir 25
cerbydau mwy 5
cludiant di-elw 6, 28
cofrestriadau, gwasanaeth bws lleol 36
cwmnïau cyfyngedig, euogfarnau 32
cydymffurfio
  *gweler hefyd* cadw'ch trwydded
  gweithdrefnau/systemau monitro 35
cyfnod y drwydded 15
cymhwysedd proffesiynol

cymwysterau 29–30
rheolwyr trafnidiaeth 29–30
Cymru a Lloegr
diffiniadau 7
gwahaniaethau rhanbarthol 7
prisiau tocynnau ar wahân 7
wyth o seddau teithwyr 7
cymryd camau yn erbyn eich trwydded 21–2
cymwysterau
cymhwysedd proffesiynol 29–30
rheolwyr trafnidiaeth 29–30
cynnal a chadw cerbydau 33–4
gofynion trwyddedu 11
*Guide to Maintaining Roadworthiness:*
*Commercial Goods and Passenger Carrying Vehicles* 33–4
cysylltiadau defnyddiol 39–41

DCPC *gweler* Tystysgrif Cymhwysedd Proffesiynol y Gyrrwr
deddfwriaeth 38
diffiniadau
cerbydau gwasanaeth cyhoeddus 5–6
Cymru a Lloegr 7
gwahaniaethau rhanbarthol 7
prisiau tocynnau ar wahân 6
taliadau, tâl neu wobr 5
Yr Alban 7
dyletswydd gyfreithiol, newidiadau yn eich trwydded 21

enw da, gofyniad trwyddedu 11
euogfarnau 30–2
cwmnïau cyfyngedig 32
mewn gwledydd tramor 31
partneriaethau 32
rhoi gwybod amdanynt 31
wedi darfod 31
Ewrop, gweithredu yn 17–18

ffurflenni trwyddedu gweithredwr cerbydau gwasanaeth cyhoeddus 38

glynu wrth reolau, gofyniad trwyddedu 11–12
gofynion trwyddedu gyrwyr, gwasanaeth bws lleol 27
gofynion trwyddedu, proses ymgeisio 11–12
*Guide to Maintaining Roadworthiness:*
*Commercial Goods and Passenger Carrying Vehicles* 33–4
gwahaniaethau rhanbarthol
Cymru a Lloegr 7
diffiniadau 7
Yr Alban 7
gwahardd trwyddedau 5–6
gwasanaethau bws

bws mini 5
bws ysgol 6
caniatadau bws cymunedol 28
cludiant di-elw 6, 28
lleol 17, 26–7, 36
gwasanaeth bws lleol 17
cofrestriadau 36
gofynion trwyddedu gyrwyr 27
prisiau tocynnau ar wahân 36
safonau 36
trwydded gyfyngedig arbennig 26–7
yn Llundain 17
gweithrediadau rhyngwladol 7–8, 17–18
gweithdrefnau/systemau monitro 35
gwrthod ceisiadau
proses ymgeisio 14
toriadau 14, 21–2
gwrthwynebiadau, proses ymgeisio 12–13
gwybodaeth
arweiniadau/taflenni 4, 38
gwybodaeth ddefnyddiol 38
mwy o wybodaeth 23

limwsinau hir 5, 24–6
cerbydau llogi preifat 25
trwydded alcohol 26

Lloegr a Chymru *gweler* Cymru a Lloegr
llogi cerbydau gan weithredwyr eraill 18–19
Llundain, gwasanaeth bws lleol 17

mathau o drwydded 7–9
mathau o wasanaeth 16–18
cyfyngiadau 16–17
gwasanaeth bws lleol 17
mwy o wybodaeth 23

naw+ o seddau teithwyr 9
cyfyngiadau 16
limwsinau hir 24
prawf MOT 9
newidiadau yn eich trwydded 19–21
dyletswydd gyfreithiol 21
newid mewn amgylchiadau 20
nifer y cerbydau a drwyddedir 10, 19
uwchraddio trwydded gyfyngedig 20
newid mewn amgylchiadau 20
nifer y cerbydau a drwyddedir 10, 19
*Notices and Proceedings (Ns and Ps),*

proses ymgeisio 13

partneriaethau, euogfarnau 32
PHVs *gweler* cerbydau llogi preifat
prawf MOT, naw+ o seddau teithwyr 9
pris tocyn ar wahân
Cymru a Lloegr 7
diffinio 6
gwasanaeth bws lleol 36
Yr Alban 7
proses ymgeisio 10–14
ailymgeisio 22
apeliadau 14
gofynion trwyddedu 11–12
gwrthod ceisiadau 14
gwrthwynebiadau 12–13
*Notices and Proceedings (Ns and Ps)* 13
ymchwiliadau cyhoeddus 13–14
ymgeisio am drwydded 10
PSVs *gweler* cerbydau gwasanaeth cyhoeddus

rheolwyr trafnidiaeth 29–30
cymhwysedd proffesiynol 29–30
cymwysterau 29–30
rhoi gwybod am euogfarnau 31

safonau gwasanaeth bws lleol 36
statws ariannol, gofyniad trwyddedu 11

taflenni gwybodaeth 4, 38
taliadau (tâl neu wobr), diffinio 5
toriadau
apelio yn erbyn penderfyniadau 14, 22
trwydded alcohol, limwsinau hir 26
trwydded gyfyngedig 5, 6, 7, 8, 26–7
gwasanaeth bws lleol 26–7
uwchraddio 20
trwydded gyfyngedig arbennig 5, 6, 7, 8, 26–7
cerbydau llogi preifat 26–7
gwasanaeth bws lleol 26–7
tacsis 26–7
trwydded llogi preifat 5–6
trwydded safonol
gweithrediadau cenedlaethol/rhyngwladol 7–8, 17–18
gweithrediadau cenedlaethol yn unig 7–8
trwydded tacsi 5–6
Tystysgrif Cymhwysedd Proffesiynol y Gyrrwr
(DCPC) 9

wyth o seddau teithwyr 5
cyfyngiadau 16
Cymru a Lloegr 7
limwsinau hir 25–6
Yr Alban 7

ymchwiliadau cyhoeddus, proses ymgeisio 13–14
Yr Alban
diffiniadau 7
gwahaniaethau rhanbarthol 7
prisiau tocynnau ar wahân 7
wyth o seddau teithwyr 7

MYNEGAI

Cynhyrchwyd gan yr Adran Drafnidiaeth mewn partneriaeth â'r diwydiant trafnidiaeth